Rev Simon Jones

Cyfres yr 20fed Ganrif.

RHYDDID. GWIRIONEDD. CARIAD.

Yr Ymofynydd.

Cyf. 6. Rhif 4.] EBRILL, 1906. [Pris 2c.

CYNNWYSIAD.

"Ar Edyn Ffydd."
Nodion y Mis.
Crist yn yr Eglwys.
Bywyd a Mater.
Dysgu y Gymraeg.
Nedi.
O For I Deifi.
Congl yr Awen.
Joseph Blanco White (1775–1841).
Tyfiant Crefydd yn Sir Aberteifi.
Marwgofion.
Manion ac Hanesion.

Y GWIRIONEDD A'CH RHYDDHA CHWI.

Argraffwyd gan J. D. Lewis, Gwasg Gomer, Llandyssul.

YR YMOFYNYDD.

Golygwyr—

W. JAMES, B.A., J.P., a T. ARTHUR THOMAS, Llandyssul.
Barddoniaeth—SARNICOL, County School, Abertillery.

Pris 2g. y mis; drwy y *Post*, 2/6 y flwyddyn. Danfonir 6 copi a ychwaneg yn ddidraul drwy y *Post*.

Telerau i Ddosparthwyr, 13 am bris dwsin o gopiau.

Yr erthyglau i fod yn llaw y Golygwyr erbyn y 10fed o bob mis, a gohebiaethau eraill erbyn y 15fed. Gyrer y Farddoniaeth i Sarnicol, County School Abertillery, Mon.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. LEWIS, Swyddfa'r "Ymofynydd," Llandyssul.

TALIADAU.

Parch. J. E. J. Padiham; J. D., Croesgoch; Miss J., Tregaron; E.D., Aberdar.

Llyfrau ar Werth . .

Gan J. D. LEWIS, Gwasg Gomer, Llandyssul.

HANES PLWYFI LLANGELER A PHENBOYR; gan D. E. Jones. 3s. 6c.

HANES PLWYF LLANGYNLLO; gan E. Davies. 2s. 6c.

WEDROSIA: Nofel Ddifyr. 6c.

GWEITHIAU GWILYM MARLES. 1s. 6c.

GEIRIADUR Y BARDD; gan Iolo Morganwg a Cynddelw. Pris, 7s. 6c. (Gwerthir yn awr am 3s. 9c.)

YR YSGOL FARDDOL, gan Dafydd Morganwg. 2s.

LLAWLYFR Y LLAIS; gan D. W. Lewis. 1s. 6c.

GEIRIADURON A GRAMADEGAU (*Cymraeg a Saesneg*).

Hefyd y mae J. D. L. yn agored i BRYNU pob math o Lyfrau Cymraeg Ail-law. Ni waeth pa mor ddi-olwg y byddont.

Thos. Jones & Son, Llandyssul,

Have the Largest Stock and Best Selection of

BOOTS AND SHOES

In the Town.

Men's from 3/6 to 17/6; Ladies' and Children's from 1/11 to 12/6.

Sole Agents for the well-known

HOLD-FAST BRAND.

Thousands of Testimonials.

Hand-sewn made to measure. Repairs neatly done & cheap.

ROBIN THE NEW STARCH
Reckitt's Blue.
ZEBRA GRATE POLISH.

ALBION, LLANDYSSUL AND PENCADER.

BOOTS, SHOES, AND SLIPPERS,

The Largest and Best Selected Stock in the Three Counties.

Sole Agent for the Dry Foot Brand. Acknowledged to be the Best Boot in the Market. Every pair guaranteed.

Repairs neatly and cheaply done by experienced men on the premises.

GRIFFITH DAVIES.

EVANS BROS.,

Manchester House, Llandyssul.

TAILORS, OUTFITTERS, HATTERS, HOSIERS, &c.

A large Assortment of Gent's and Youths' Rainproof Coats.

Mourning Orders promptly executed.

An Inspection will be much appreciated.

London House, Llandyssul.

Children's Millinery & Costumes always in Stock.

B. MORRIS,

MILLINER,
& FANCY DRAPER.

Wedding & Mourning . . . . Orders Promptly Executed.

Grand Display of Spring and Summer Millinery.

OLD SHOP, CRIBYN.

D. J. THOMAS.

General Draper, Milliner, Grocer, Ironmonger, and Boot and Shoe Merchant.

A well Selected Stock of Capes, Jackets and Millinery always on hand.

Agent for E. W. PRATT & Co., Bristol, Manufacturers of the well-known "Holdfast" Brand of Boots and Shoes.

DON'T NEGLECT . YOUR EYESIGHT.

It is the most valuable of all the senses. I have the most up-to-date instruments for accurately and scientifically testing the eyes. . . .

☞ Call without delay and have them tested free.

John E. Jones, Jeweller & Optician, **1, Wind St., Llandyssul.**

Wedding, Keeper and Engagement Rings, at Strictly Moderate Prices.

YR YMOFYNYDD.

Cylchgrawn Misol y . . . .

Gymdeithas Undodaidd Gymreig.

"Profwch bob peth, deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

CYFRES NEWYDD.] EBRILL, 1906. [CYF. VI. RHIF 4.

AR EDYN FFYDD.

"Ni phery ddim yn hir y ddu dymhestlog nos ;
Ni threfnwyd amser maith i neb i gario'r gro's :
Mae'r hyfryd wawr sy'n codi draw
Yn dweyd fod bore braf gerllaw."—*W. W.*

Pedair llinell adroddodd yr hen frawd, ond yr oedd y rhai hyny yn awgrymiadol ; ac megis pluen a ddengys cyfeiriad y gwynt, dangosent gyfeiriad y meddwl a'r teimlad. Sylwais inau fod cario'r groes yn ffurfio rhan bwysig a gwerthfawr yn hanes dyn ; a'i chario'n iawn yn ddyledswydd arno. Cytunai â mi yn hollol ac yn galonog. Tybiwn er hyny fod yna beth o dinc Dyffryn Baca yn yr adroddiad, er fod y llinellau eu hunain yn gwynebu'r goleuni tanbaid sydd yn weledig yn y ddwy linell olaf. Dichon fod y rhai hyny yn ei feddwl yntau er nad adroddodd un o honynt.

Drwyddynt y cawn gipdrem ar fflachiad edyn gobaith—gobaith sydd wedi bod erioed yn elfen mor nerthol yn nyrchafiad yr hil ddynol. Pan fyddo gobaith yn rhedeg ar hyd llinell rheswm a llwybr ymddadblygiad, y mae ar y ffordd i gyrhaedd ei sylweddoliad. Y mae gobaith felly yn nef-anedig yn ei hanfod, ac yn sicr yn ei amcan. Glynwn wrth yr amcan hwn—y mae cariad Tad y tu cefn iddo.—*J.B.I.*

NODION Y MIS.

CREFYDD! Mae swyn yn y gair, a sylwedd gobeithion goreu yr hil ddynol yn mynwesu ynddo. Eto blin ydyw'r syniad mai crefydd hefyd ydyw asgwrn y gynen. Dywed gwr o'r enw Friswell mai ychydig o broffeswyr crefydd sydd yn ymdrechu byw i fyny i'w golygiadau. "Gwna pobl," medd efe, "ymgecru yn nghylch crefydd, dadleu o'i deutu, llysenwi, ymlid, a llosgi eu cymydogion o'i herwydd; fe ymladdant dros grefydd, byddant farw er ei mwyn; mewn gwirionedd gwnant bobpeth ond byw i fyny i'w crefydd. Ychydig sydd yn ymdrechu gwneud hyny." Digon tebyg fod Friswell yn defnyddio gormodiaeth; ond wrth ddarllen y newyddiaduron a'r cylchgronau, cymhellir ni i gasglu fod gwir yn ei osodiad.

Y cwestiwn sydd yn llosgi dan y gwydr ydyw pwnc addysg, ac nid addysg chwaith, yn yr ystyr helaethaf o'r gair, ond addysg grefyddol. Derbyn ysgrifenydd y llinellau hyn ei swcwr dyddiol o hanes gwleidyddol yn y *Manchester Guardian*. Ar dudalenau y papyr hwn ymleddir brwydr, nid gydag arfau milwrol, ond gydag offeryn heddwch—yr ysgrifbin. Arweinir y fyddin gatholig yn Eglwys Lloegr gan Esgob rhyfelgar a chulfarn Manceinion, yr hwn a ddeil y dylent hwy gael meithrin yr "awyrgylch eglwysig" yn eu hysgolion ar draul y wlad. Mae y fyddin Brotestanaidd o'r Eglwys o dan arweiniad y dysgedig Canon Cremer, yn ffafrio y syniad y byddai addysg Feiblaidd yn yr holl ysgolion yn tueddu i arwain i heddwch parhaol ar y cwestiwn dyrus hwn. Mae y Pabyddion yn croch-lefain yn ddigywilydd y syniad y dylai Pabyddiaeth lân a gloew gael ei dysgu yn eu holl ysgolion hwy ar draul y werin.

Yn y frwydr hon, daw sefyllfa dduwinyddol y gatrawd gatholig yn Eglwys Lloegr i'r amlwg. Gofynodd Mr. Powell, Ficer Bridlington, pa Feibl oeddynt yn fwriadu ddefnyddio yn yr ysgolion—y Beibl Eglwysig neu y Beibl Undodaidd? Eglur yw ei fod yn amcanu taflu anfri ar addysg Feiblaidd yn yr ysgolion trwy ofyn y cwestiwn. Ysgrifenodd gweinidog Undodaidd i dystiolaethu fod yr Undodiaid yn defnyddio yr un Beibl a'r Eglwyswyr—yna tystia Mr. Powell mai yr hyn gyfansodda Feibl Undodaidd ydyw yr esponiad roddir arno. Hawlia fod y bedwaredd Efengyl yn rhwym o fod yn wahanol iawn i'r Undodwr i'r peth yw i'r Trindodwr. Yna dywed Mr. Powell nad ydyw ef yn gosod cymaint pwys ar y Beibl ag mae'r Anghydffurfwyr yn wneud. Tystia fod gan yr Eglwys hawl i esponio y Beibl, fel yr oedd ganddi hawl i gasglu y Testament Newydd at ei gilydd. Yr oedd y ffydd Gristionogol mewn bod cyn i'r Testament Newydd gael ei ysgrifenu.

Felly rhydd Mr. Powell gymaint o bwys ar esponiadau, neu gredoau yr Eglwys, ag ar y Beibl. Felly mae yn tynu dan seiliau y Diwygiad Protestanaidd, yn gystal a'r syniad o ysprydoliaeth anffaeledig y Beibl. Ceisia yr enaid dynol am seiliau awdurdodedig mewn pethau crefyddol, ac mae wedi credu fod y seiliau hyn i'w cael yn yr Eglwys, neu yn y Beibl—ond camsyniadau ydyw y ddau syniad. Yn sier mae yr "awdurdod" yn yr enaid dynol ei hun—yn yr enaid sydd mewn cydgord a Duw, ac nid mewn pethau allanol. Ireiddir a dyfrheir yr enaid trwy astudiaeth ddwys o'r Ysgrythyrau, a chynorthwyir yr enaid i gyrhaedd perffeithrwydd drwy ddrachtio yn helaeth o brofiad dynoliaeth, ond yn y pendraw rhaid i'r enaid sefyll neu syrthio ar ei deithi cynhenid ei hun.

Agwedd arall o'r un cwestiwn crefyddol ydyw yr Eglwys Sefydledig. Mae Syr H. Campbell-Bannerman wedi ysgrifenu llythyr at Mr. S. T. Evans, A.S., yn ystod y mis diweddaf, yn cadarnhau ei addewid flaenorol i Syr Alfred Thomas a Mr. Lloyd-George, sef, fod Dadgysylltiad yr Eglwys yn Nghymru yn aros yn rhan anhebgorol o raglen y Llywodraeth. Mae yr hil ddynol yn hir-ymarhous, pan y caniata am foment i un rhan o'r Eglwys i aros yn sefydledig a gwaddoledig, a hyny ar draul anwybyddu yr holl Eglwysi ereill. Mor anhawdd dilëu anghyfiawnder sydd wedi tyfu i fyny ochr yn ochr a'n bywydau ni! Pe gwaddolid yr holl Eglwysi Cristionogol a phe telid gweinidogion gan y Llywodraeth fel offerynau pwrpasol er meithrin dinasyddion urddasol, gellid i ryw raddau amddiffyn y fath drefn, er fod Ffrainc yn ddiweddar wedi penderfynu dwyn i derfyniad gyfundrefn o'r fath, oedd mewn grym yn y wlad hono. Ond mae ffafrio un Eglwys ar draul y mwyafrif, fel yn Nghymru, yn amryfusedd ac yn anghyfiawnder na ddylid ei ddioddef yn hwy.

Gellir dychmygu dros fil o weithwyr yn cychwyn allan o'u tai yn Courrieres, yn Ffrainc, ar y 10fed o Fawrth. Maent yn cychwyn yn anterth eu nherth gyda chalonau ysgafn a llawen. Mae aml i ffarwel yn cael ei roddi—y ffarwel olaf ar y ddaear. Mae y tad yn aros uwchben gwely y plant, ac yn eu cusanu yn eu cwsg—y gwr yn dymuno ei fore da i'r wraig, a'r meibion i'w mamau, ac yna allan i'r awyr agored yn ysgafn droed nes cyrhaedd top y pwll glo. Yna yn bartion o bump neu ragor disgynant trwy enau agored y pwll i berfedd y ddaear. Y ddaear oedd y tro hwn i brofi, nid yn famaeth dyner, ond yn angeu creulawn a disymwth. Yn mhen ychydig amser mae trwst fel trydan neu ddaeargryn yn syfrdanu poblogaeth yr ardal, mae mwg yn ymgodi o enau y pwll, ac mewn amrantiad bron mae y gweithwyr hoyw yn troi yn gyrff marw, ac mae ochenaid drom yn codi o enaid gwlad gyfan. Mae y glo yn y pwll yn tanio, ac erys llawer o'r meirw o hyd yn y dyfnderoedd.

Mae anffodion o'r fath yn faterion tywyll iawn yn nhrefniadau Duw cariadlawn. Pan y cymerir ymaith dad a'i wyth o feibion ar yr un adeg oddiwrth eu gwaith gan adael anwyliaid yn dorcalonus ar eu hol i alaru eu colled, tueddir llawer i ofyn, Pa le mae Duw? Parod ydym i chwilio gwallau yn nhrefn Rhagluniaeth pan y cymer galanastra o'r fath le. Ond y mae trigolion Ffrainc yn rhoddi y bai ar y peirianyddion a'r meistriaid ac nid ar y Goruchaf. Ond gadawer fod y bai ar y meistriaid, ac fod un neu ddau o honynt yn euog o ddwyn marwolaeth ar fil o'u cyd-ddynion, paham, gofynir, na fuasai Duw yn goruwch-lywodraethu ac yn achub bywydau diniwed? Dyna broblem ddyrus. Eglur ydyw nad ydyw Duw yn ymyraeth mewn achosion o'r fath. Trwy boen a galar rhaid i ddyn ddysgu rhoddi ufudd-dod i ddeddfau y Goruchaf. Mae llwybr blaenfynediad, bob cam o hono, yn goch gan waed y Prophwydi a'r merthyron. Trwy hunan-ymwadiad mae y Dwyfol yn ymlithro i fewn i'r Dynol. Ond er yr holl alar a'r poen, mae y galanastra wedi bod yn foddion i ddwyn i'r amlwg rai o deithi goreu y natur ddynol. Mae peirianyddion yr Almaen wedi estyn cynorthwy er ceisio cael y glowyr clwyfedig allan o'r pwll. Mae trysorfa er rhoddi cynorthwy arianol i berthynasau y glowyr ymadawedig wedi ei hagor yn Llundain a Manceinion. Profa hyn ein bod yn graddol sylweddoli mai brodyr o'r un gwaed ydyw trigolion pob gwlad. Mae ochr oleu i'r cwmwl mwyaf du.

Mae priodas wedi ei threfnu rhwng Brenhin Yspaen a'r Dywysoges Ena o Battenberg. Nid ydyw hyn yn beth hynod ynddo ei hun, canys dyma arferiad y byd, a chynllun mawr Rhagluniaeth. Ond gwna yr amgylchiadau crefyddol y briodas yn un hynod. Mae Brenhin Yspaen yn aelod o Eglwys Rhufain, tra mae'r Dywysoges Ena yn perthyn i'r Eglwys Brotestanaidd. Cyn y gall priodas gymeryd lle, anghenrhaid yw i'r ddarpar-wraig fabwysiadu crefydd y Brenhin. Ac mae y cwestiwn yn codi, a ydyw yn iawn oddiar safbwynt moesol a chrefyddol, i'r fath droedigaeth gymeryd lle? A ydyw yn gydweddol ag yspryd Cristionogaeth i ferch bedair ar bymtheg oed i adael crefydd ei theulu, cyn iddi mewn gwirionedd fod mewn oedran cyfaddas i farnu drosti ei hun? Dyma y cwestiwn sydd yn blino meddyliau llawer o Brotestaniaid yn Lloegr y dyddiau rhain. Dywed rhai yn benderfynol na ddylai ŵyres ein diweddar Frenhines Victoria, a nith ein Brenhin—amddiffynydd y Ffydd—newid ei chrefydd. Mae yr holl drafodaeth yn edrych yn rhy debyg i un yn gwerthu crefydd am orsedd. Mae y Catholiciaid ar y llaw arall yn protestio, nad ydyw y droedigaeth yn nghrefydd y Dywysoges Ena yn "droedigaeth trefnedig" fel y tystiolaethir, ond fod gan y Dywysoges gyflawn hawl i ddychwelyd i Eglwys Rhufain os dewisa.

Mae darllen llyfr George Borrow ar "Wyllt Walia" (Wild Wales) yn hynod ddyddorol, yn enwedig i'r Cymro sydd wedi ei alltudio gan amgylchiadau o hen wlad ei dadau, er fod y gyfrol yn arddangos anwybodaeth dybryd yr awdwr o'r iaith Gymraeg, Ond yr hyn sydd yn fwy hynod ydyw y ffaith fod Sais, haner can mlynedd yn ol, wedi ceisio dysgu yr iaith o gwbl, a'i fod wedi llwyddo i'r fath raddau fel ag i gymeryd dyddordeb neillduol yn llenyddiaeth y Cymry. Yr oedd ei wybodaeth o'r clasuron Cymreig yn fawr, a'i gariad at Gymru yn wresog. Fe aeth George Borrow ar daith bererindodol drwy Gymry yn 1854. Cyhoeddwyd "Wild Wales" mewn tair cyfrol yn 1862. Ail gyhoeddir mewn un gyfrol wych, am swllt, gan J. M. Dent & Co. Mae nodiadau Mr. Theodore Watts-Dunton am "Wyllt Walia" a ffurfiant ragdraeth i'r llyfr, yn peru i waed Cymro lifo yn gyflymach drwy y gwythienau mewn llawenydd wrth ddarllen geiriau mor serchus a thyner. Dyma dystiolaeth Watts-Dunton: "Mae golygfeydd Cymru yn apelio mewn modd neillduol ataf, a pha ryfedd; nid oes dim yn debyg iddynt yn y byd. Er fy mod yn gynefin a'r Alpau a mynyddoedd ereill yn Ewrop yn eu dirgelfanau mwyaf rhamantus a phrydferth, mae gyda fi, fel gyda Borrow; nid oes un olygfa fynyddig yn meddu yr un swyn-gyfaredd a'r hon a welir oddiamgylch yr Eryri. Mae yn sefyll ar ei phen ei hun (*unique*) yn mysg golygfeydd Ewrop. Mae hanes Cymru hefyd yn arwrgerdd nas gellir rhagori arni mewn barddoniaeth na ffughanes. Er fy mod wedi gweled llawer o genhedloedd Ewrop, yr wyf mewn llawer ystyr yn gosod cenedl y Cymry y blaenaf o honynt oll."

J.T.

CRIST YN YR EGLWYS.*

Lled dybiaf y gwel y dyddiau hyn ddalen newydd yn cael ei throi yn llyfr hanes crefydd Ryddfrydig. Mae oes y "tori i lawr" yn pasio, ac oes yr "adeiladu" yn cymeryd ei lle. Amcan braidd pob pregeth athrawiaethol heddyw, os y bydd yn werth galw pregeth arni, yw dangos y gwirioneddau sylfaenol ydynt yn gorwedd odditan wahanol gredoau y sectau. Chwilio am y gwir gan anwybyddu y gau—dyna hoff waith athrawon crefyddol ein hoes. Ni foddlona y natur ddynol ar y nacaol; gwaith isel, ar y goreu, yw tynu i lawr. Gwell codi o'r newydd deml crefydd Ryddfrydig, gan adael yr hen i drugaredd yspryd yr oes. Cred llawer mai tuedd Cristionogaeth Ryddfrydig yw dibrisio y defosiynol mewn crefydd, ac ysgubo ymaith ddefodau yr eglwys gan feirniadaeth resymol fel mân us o flaen y gwynt.

Ac mor bell ag y mae a fyno a defodau y mae hyn yn wir i raddau

*Casgliad o bregethau ar yr Eglwys a'i sefydliadau gan Dr. Hastings Rashdall, Rhydychen.

helaeth. "Gwagedd o wagedd, gwagedd yw y cwbl" o ddefodau yr uchel-eglwyswr neu eiddo Eglwys Rhufain i'r rhan fwyaf o grefyddwyr Rhyddfrydig. Rhaid i grefydd, mae'n wir, wrth yr allanolion ; 'dall hi ddim o'u hebgor. Dywed un awdwr y dylai hyd yn oed yr anffyddiwr gael ei ddefod—y dylai ddiolch i Dduw yn wastad am nad yw wedi gweled yn dda i ddatguddio Ei hun iddo. Y cwestiwn ynte yw, pa gymaint neu pa ychydig o'r allanolion sydd eisieu ar bobl ddeallus yr "oes oleuedig hon." Dibyna hyn, ni gredwn, i raddau helaeth ar chwaeth ddefodol pob person unigol, a dywed y Sais, "There's no accounting for tastes." Cydunwn, fodd bynag, a Dr. Rashdall nad oes dim mewn syniadau Rhyddfrydig sydd yn brwydro yn erbyn y defosiwn dwysaf a'r yspryd-olrwydd dyfnaf. Awn yn mhellach a dywedwn nad yw dyn yn cael profi gwir yspryd olrwydd ond i'r graddau y byddo yn ymddihatru oddiwrth ofergoeliaeth ac yn cofleidio syniadau Rhyddfrydig am Dduw ac am ddyn. Fel y gwyr ein darllenwyr, un o flaenoriaid y blaid rydd yn Eglwys Loegr yw awdwr y llyfr dan sylw, ac fel y gallem ddisgwyl, mae'r llyfr yn ddangoseg o eangder ei feddwl. Ei amcan yw egluro rhai o sefydliadau ac arferion yr Eglwys Gristionogol i fobl ddiwylliedig fel ag i'w gwneud yn hawddach iddynt gymeryd rhan yn ei gwasanaethau a'i hordinhadau, ac i dderbyn help oddiwrthynt yn eu gyrfa Gristionogol.

Gŵyr yr awdwr yn dda fod llawer o'r ordinhadau yn wag a diystyr. Yn wir, â mor bell ag addef nad ydynt, wedi'r cwbl, yn rhan o grefydd Iesu Grist. A chredwn yr arosant eto, er gwaethaf ymdrechion teilwng y Dr. dysgedig yn esgyrn sychion, noethion, difywyd i'r rhan fwyaf o bobl sydd yn meddwl. 'Dyw Offeiriadaeth ac Olyniaeth Apostolaidd ond cangenau crin ar Bren y Bywyd. Mae Bedydd, pa un ai trwy drochiad ai drwy daenelliad, wedi colli ei rinwedd cyntefig. Pan daflwyd o'r neilldu y syniad o Bechod Gwreiddiol—y syniad fod y plentyn ar ei ddyfodiad i'r byd yn bechadurus ac yn eiddo Satan—nid oedd lle mwyach i fedydd er golchi ymaith y pechod. Mae *christening* y Sais yn golygu gwneud y plentyn yn Gristion. Yn ol Iesu, mae'r plentyn yn Gristion naturiol.

Tebyg hefyd na fwriadodd Iesu i Swper yr Arglwydd gael ei throsglwyddo i lawr i'r Eglwys, ond yn unig fod yr apostolion pan yn eistedd gyda'u gilydd wrth y bwrdd ac yn canfod un gadair wag, i gofio am yr athraw a'i ddysgeidiaeth. Sicr yw na fwriadodd i'r ordinhad gael ei gwneud y coegbeth (*farce*) ydyw hi mewn llawer o'n heglwysi yn enwedig yn Lloegr.

Amlwg yw fod yspryd yr oes wedi bod a'i fwyell ar wreiddyn y prenau, "pob pren gan hyny yr hwn nid yw yn dwyn ffrwyth da a dorir i lawr ac a deflir yn tân." Nid dyna dynged Addoliad a Gweddi. Erys y rhai hyn yn elfenau byw tra yr erys crefydd, tra fydd dyn yn ddyn, a pha mwyaf dynol fydd, mwyaf addolgar a gweddigar y teimla. Yr ydym yn gweddio, nid am ei bod yn ffasiwn gweddio. Amheuaf a ydyw yn ffasiwn. Gweddiwn am y rheswm syml nad allwn beidio gweddio tra yr erys ein natur yr hyn ydyw yn bresenol. Galwa Dr. Rashdall sylw at y cyfnewidiad sydd wedi cymeryd lle yn ddiweddar gyda golwg ar sylwedd gweddi. "Mae yr oll a wyddom am y byd materol yn ein harwain i gredu fod Duw yn gweithio ynddo drwy achosion materol, ac nad yw codiad haul na'i fachlud, y dòn na'r dymhestl, y trai na'r llanw, mewn un modd o dan ddylanwad ein dymuniadau ni. O'r tu arall mae'r oll a wyddom am y byd ysprydol yn ein harwain i gredu fod gweddi yn effeithiol yma." Mae profiad dyn yn erbyn y math cyntaf o weddi, ond dros y math olaf.

'Dyw wiw gweddio am wlaw neu gynhauaf toreithiog, ond iawn a daionus gweddio am gymhorth i wneud ein gwaith o ddydd i ddydd gyda diwydrwydd a gonestrwydd, ac

am nerth i wrthsefyll profedigaethau bywyd. Dylanwadau materol yn y byd materol, a dylanwadau ysprydol yn y byd ysprydol. Ni weddiodd Iesu ar i Dduw gymeryd ei ddysgyblion allan o'r byd, ond ar iddo eu cadw rhag y drwg oedd yn y byd.

Dyddorol neillduol yw geiriau Dr. Rashdall ar "Agwedd grefyddol y Wladwriaeth," "Yr Eglwys a'r Wladwriaeth," "Yr Eglwys a'r Eglwysi." Cred fod yna ryw gornel i'w gael yn y byd i'r Anghydffurfiwr, ond metha weled yr un anghyfiawnder mewn Eglwys sefydledig yn cael ei chynal gan y llywodraeth. Onid dipyn yn hwyr yn y dydd ydyw hi i siarad yn oddefol am yr Anghydffurfiwr? Heddyw, gwrthodwn oddefgarwch fel sarhad, hawliwn gydraddoldeb crefyddol fel ein braint.

"Crist yn yr Eglwys"—da fydd ei weled yno; mae wedi ei gau allan cyhyd; eto, angen ein dydd yw Crist yn y byd, yn y farchnad, yn y siop, pa le bynag y mae dau neu dri wedi ymgynull i fasnachu—Crist yno yn y canol. Pregeth Dr. Rashdall ar "Genhadaeth Gymdeithasol yr Eglwys" ynte yw yr hon apelia fwyaf atom. Efallai mai tipyn yn gynar ydyw hi i osod sylwedd y bregeth hon o flaen eglwysi cysglyd, ceidwadol Undodaidd Cymru. Llyfr da, ar bynciau gwych gan ysgrifenwr galluog yw "Crist yn yr Eglwys" yn ol

AP S.

BYWYD A MATER.*

Y mae i bob cyfundrefn ei dydd. "Ymlaen" yw arwyddair y meddwl dynol. "Newid" parhaus sydd yn cyfansoddi hanes. Fel dadblygiad y gwanwyn, y mae un haul yn suddo i roddi lle i haul dysgleiriach yforu. Y mae efengyl Tyndall a Bradlaugh, a'u miliwn dilynwyr, yn graddol golli tir; y mae "materoliaeth" yn llythyren farw yn mron yn hanes athroniaeth ddiweddar. Y mae'r Efengyl yn ol Haeckel i'w chael am chwe'cheiniog. Ceisiodd y Bywydegwr mawr o'r Almaen ddeongli y breuddwyd a elwir Bywyd, ac y mae miloedd o'i ddarllenwyr yn ei gredu. Peiriant dienaid yw'r greadigaeth, yn ol Haeckel. Peiriant diddechreu, diddiwedd, hunan-ysgogol; heb Arweinydd yn y byd i'w dywys yn mlaen ar lwybrau didramwy tragwyddoldeb. Enaid dyn; nid yw yn ddim ond arddangosiad uchel o yni—y temigau elfenol a gyfansoddant oddaeth y ser a mân lwch y clorianau—yn ol Haeckel. Un o'r llyfrau rhyfeddaf a ddarllenais yn ddiweddar yw Drama ar Fateroliaeth gan un John Davidson; dysgybl ufudd eto i Haeckel, mi feddyliwn. "I mi," medd y Bardd hwn, "nid yw canrifoedd Cristionogaeth ond moment o amser sydd wedi darfod, ac mi gredaf hyn o'm calon:—

"Terrific war
Will burst the chrysalis, the Christendom,
That hangs in rags about the eager soul,
Already winged and rich with crimson stains,

* *Life and Matter.* A criticsm of Prof. Haeckel's "Riddle of the Universe." By Sir Oliver Lodge. London: Williams & Norgate. 1905.

With sulphur plumes and violet, green
and gold,
Psyche at last, pure matter in itself."

Buasai yn waith anhawdd ac anghyfiawn ceisio cyfieithu yr uchod. Ond mae cewri athroniaeth naturiol, fel Syr Oliver Lodge a'r Proff. Wallace, yn dechreu arfogi eu hunain, ac yn hyrddio tân-belenau dystrywiol i wersyll Materoliaeth. Y mae'r yspryd a wêl y gwir fardd a'r gweledydd fyth yn aros yn y cread, yn dechreu gwneud ei hun yn amlwg eto. Nis gall y llyfr hwn o eiddo Syr Oliver Lodge lai na gwneud dirfawr les i rai sydd ar encil yn mysg moch a chibau athroniaeth y llwch—fel y gellir galw Materoliaeth bur. Y mae Syr Oliver Lodge yn gwybod mwy, ond odid, am natur gyfrin Mater, o safbwynt athroniaeth naturiol, na'r un dyn arall sydd heddyw'n fyw. Caniateir yn gyffredinol heddyw fod cysylltiad Mater â Thrydaniaeth yn gyfryw nas gellir, wedi eu dadansoddi i'w heithafion, ddod i ddim penderfyniad ond hwn—mai'r un ydynt yn y gwaelod. Y mae'r Proff. Haeckel wedi sylfaenu ei lyfr "clodwiw" (*The Riddle of the Universe*), yn ol Syr Oliver Lodge, ar ddamcaniaethau parthed mater ac yni ydynt, os nad yn hollol gyfeiliornus, heb eu profi eto.

Y fwyaf pwysig o'r damcaniaethau neu'r haeriadau hyn ydyw—"nas gellir creu na distrywio *mater* ac *yni*." Dengys y doethawr o Birmingham yn gyntaf nad oes yna'r un deffiniad clir yn bodoli o *fater* ac *yni*; ac, yn ail, teifl oleuni'r ymchwiliadau diweddaf ar y cwestiwn sydd yn dangos y posibilrwydd o greu y naill a'r llall—beth bynag am ei ddistrywio.

Yn ol Haeckel, nid yw "bywyd" yn ddim ond un ffurf ar *yni* sydd bob amser ynglŷn a mater. Hyny yw, nis gall bywyd fodoli ar wahan i fater; mwy nas gall gwres, neu bwer peiriant, neu oleuni, neu drydaniaeth. Cymer Haeckel yn ganiataol mai ffurf o yni materol yw bywyd. Dengys Syr Oliver Lodge nad yw hyn wedi cael ei brofi gan wyddonwyr hyd yn hyn. Y mae ef yn darlunio bywyd fel ymddangosiad gwlith ar wydr; a'i ddiflaniad drachefn. Y gwydr sydd yn peri i'r gwlith dd'od yn weledig, ond nid o'r gwydr y mae'r gwlith, eithr o'r awyr o gwmpas; a phan ddiflana, i'r awyr y dychwela drachefn, yn ddystaw, tawel, anweledig—allan o fodolaeth, yn meddwl y barbariaid, — ond gwyddom ni yn well. Efallai y dengys y gydmariaeth hon ryw debygolrwydd arwynebol i ymgnawdoliad (bywyd neu enaid). Efallai mai pwnc anfarwoldeb yr enaid ydyw maen tramgwydd mwyaf difrifol meddyliau ieuainc y dydd. Unwaith y dangosir, ar sylfaen synwyr cyffredin—ac nid yw gwyddoniaeth ond cyfundrefn o synwyr cyffredin—y posibilrwydd o anfarwoldeb personol—a gwawria dyddiau gwell ar grefydd a moes; dug ddyn yn ol eto i edrych arno ei hun fel bôd aruchel ac urddasol—am ei fod yn berchen enaid anfarwol.

S.

DYSGU'R GYMRAEG YN YR YSGOLION ELFENOL.

Nid oes gwadu'r ffaith fod yr amser presenol yn amser pwysig iawn yn hanes cenedl y Cymry. A phawb yn son am addysg, a'r Weinyddiaeth yn ceisio cynllunio mesur addysg teilwng a theg i'n cenedl, mae'n bryd gofyn nid yn unig beth fydd lle'r Beibl yn y gyfundrefn newydd, ond hefyd pa ystyriaeth ddylai cenedlaetholdeb arbenig ac

annibynol y Cymry gael, a pha le ddylid roddi i'r Iaith Gymraeg yn y gyfundrefn fabwysiedir? Mae'r pwnc i rai o honom yn bwnc pwysig neillduol ac nid gwiw ceisio ei osgoi. Yn gymaint a'i fod felly, carwn roi rhai rhesymau dros gynwys y Gymraeg ymhlith pynciau blaenaf astudiaeth yn yr ysgolion. (1) Gwyr pawb bron o'r plant mewn rhanau helaeth o'r wlad rywbeth am Gymraeg cyn dechreu ar gwrs yr ysgol. Meddant ddefnyddiau i ddechreu ar y gwaith ar unwaith; medrant i raddau mwy neu lai osod y defnyddiau wrth eu gilydd, hyny yw, meddant eiriau a medrant gyfansoddi brawddegau syml o'r geiriau hyny a gallant fynegi eu meddwl syml drwyddynt. Y pwnc mawr bellach ydyw dysgu'r plant i ddefnyddio'u hoffer yn well ac i feddwl yn amgenach. Gellir eu dysgu i feddwl—a dyna'r peth pwysig i'r athro a'r plant—heb yn gyntaf orfod rhoi defnyddiau iddynt ac wedi hyny eu dysgu i'w gosod wrth eu gilydd cyn gallu eu cyfarwyddo i feddwl yn glir yn yr iaith newydd. Un o'r rhesymau mwyaf dros fod plant Cymru'n gorfod meddwl yn Gymraeg ac yna cyfieithu i'r Saesneg ydyw'r ffaith na ddefnyddir y cyfrwng priodol i ddysgu'r iaith ddieithr iddynt.

(2) Egwyddor a gydnabyddir yn gyffredinol yn awr ydyw hon, mai'r cynllun goreu i ddysgu'r plant yw, arwain eu meddyliau drwy yr hyn a wyddant at yr hyn ni wyddant. Felly dysger yr iaith Saesneg i'r plant drwy'r Gymraeg a wyddant, a dealled y darllenydd mai nid fy mhwnc yw ceisio dywedyd na ddylid dysgu Saesneg yn yr ysgolion elfenol ond ceisio dangos y cyfrwng goreu i wneuthur hyny. Byddai'r cynllun hwn yn fil llai llafurus na rhoi maes helaeth yr iaith Saesneg a'i llenyddiaeth eang o flaen y meddwl ieuanc yn union gyrchol. Apeliaf am gefnogaeth y rhai fu'n ceisio dysgu iaith y Sais o dan hen oruchwyliaeth y "*Welsh Not*." Gwyr pawb pa mor ddigynyrch fu'r gyfundrefn hono.

(3) Am y galluogir y plentyn wedi gadael yr ysgol elfenol i ddysgu ieithoedd estronol o lawer yn fwy didrafferth drwy'r Gymraeg na thrwy'r Saesneg; er engraifft, mae i'r Gymraeg a'r Ffrancaeg nifer lluosog o briod-ddulliau, &c., sy'n cyfateb, ac mor rhwydd fyddai i'r Cymro ddysgu a defnyddio iaith fel hono pe gellid ond dangos iddo fod ei fam bob dydd o'r flwyddyn yn defnyddio nifer lluosog o briod-ddulliau cyffelyb ac o gynlluniau ymadrodd ar yr aelwyd gartref. Carwn pe caniatai gofod i roi engreifftiau.

(4) Am y byddai gwybodaeth o'r Iaith Gymraeg o werth anmhrisiadwy i fechgyn a merched Cymry ddeall arferion cymdeithasol a sefydliadau cyhoeddus yr hen Gymry. Adlewyrchir hwy yn llenyddiaeth y wlad ac heb wybodaeth o'r iaith nis gellir mewn unrhyw fodd eu deall yn drwyadl. Dengys llenyddiaeth gwlad hefyd ei chyflwr o ddadblygiad mewn gwahanol adranau o fasnach a gwaith. Pa mor bell, er engraifft, y dengys enwau'r metelau geir yn yr iaith o bryd i bryd raddau gyrfa'r Cymry i fyny at wareiddiad uwch.

(5) Gadawa nifer mawr o'r plant—mwy nag a feddylir yn gyffredin—yr ysgol pan yn ieuainc iawn ac ni feddant wybodaeth werth son am dani o'r Saesneg na'r Gymraeg. Gwell fyddai eu dysgu i ysgrifenu llythyr gweddol gyflawn a chywir mewn Cymraeg na'u troi allan mewn cyflwr mor druenus a difedr. Dolur llygaid hefyd ydyw gwel'd Cymraeg erthyglau papyrau newyddion. Gwelwn ynddynt gynyrch yr hen drefn o addysg. Os yw'r Gymraeg yn werth ei dysgu o gwbl mae'n werth ei dysgu a'i hysgrifenu'n gywir. Cadwn nodweddion yr iaith a pheidiwn a'i Seisnigeiddio yn eiriau a chystrawen.

(6) Mae ieitheg yr iaith—yr efrydiaeth o darddiad geiriau'r iaith a'u dadblygiad—yn rhyfeddol gyfoethog ac heb wybodaeth o elfenau gramadeg yr iaith, a'i horgraff, a'i chystrawen ni ellir gwneuthur fawr o'i

philology. Mae ieitheg yn gystal gwrtaith i'r meddwl ag efrydiaeth o unrhyw gangen o wybodaeth. Mil gwell i fachgen o Gymro gael dwy flynedd o lafurio yn *philology* iaith ei fam na cheisio ymbalfalu am bedair yn nhywyllwch ieithoedd meirwon yn ol yr hen drefn. Pell y bwyf o ddywedyd fod efrydu Lladin a Groeg, &c., yn ddiwerth, ond caffent eu lle priodol yw'm cais.

(7) Mae'r ieithoedd Celtaidd wedi dylanwadu'n helaeth ar lenyddiaeth Ewrop, ond ychydig o blant ga'r fraint o'u hastudio nes gwerthfawrogi'r rheswm hwn.

(8) Crybwyllaf a ganlyn o erthygl a gyhoeddodd yr Athro J. Morris Jones, M.A. yn y *Geiedl* rai blynyddoedd yn ol. "Mewn ysgol lle cyfrifir eu hiaith yn esgymun ymysg ieithoedd, yn swn drwg i'w ddistewi, yn anffawd i'r neb a'i gwypo, pa wedd na ddaw brath cywilydd ar y piant o'r rhieni a'i sieryd, ac o honynt eu hunain eu bod yn blant i'r fath rieni." Ymadroddion cryf ond nid eithafol. Wele eiriau a ysgrifenodd y Dr. Gruffudd Roberts ym Milan yn 1567, "Ni welir fyth yn ddyn cymdeithas rhinweddol mo'r neb a wado na'i dad na'i fam, na'i wlad, na'i iaith." Gwelir felly mai da dysgu'r Gymraeg yn yr ysgolion elfenol gan nad pa un a ydyw'r plentyn (1) i adael yr ysgol yn fore ; (2) i aros yno'n hir i ddysgu cangen o wybodaeth—yr efrydiaethau Celtaidd—a efrydir gan rai o brif enwogion byd yn Mhrydain a'r cyfandir ; (3) i ddysgu ieithoedd dieithr ; (4) i ddysgu hanes cenedl y Cymry a dadblygiad eu moes a'u masnach ; (5) i werthfawrogi dylanwad mawr y Cenhedloedd Celtaidd ar lenyddiaeth gwledydd gorllewin Ewrop.

CELT.

NEDI !

Draw yn mhell, mewn dinas ogleddol, dybiaf, safai dau foneddwr wrth ddrws y prif westy. Yr oedd yr hin yn oer iawn, a daeth crwt bychan i fyny atynt. Yr oedd ei wyneb yn deneu, yn welw-las, ei draed yn noeth ac yn goch gan yr oerfel, ac heb ddim i'w guddio ond bwndel o garpiau. Meddai wrth un o honynt ; "Os gwelwch yn dda, syr, prynwch fox o *fatches* genyf." "Na, nid oes arna i ddim o'u heisiau," ebe'r boneddwr. "Nid ydynt ond ceiniog y box," ebe'r bach yn daer iawn. "Ie, ie, ond nid oes eu heisiau arnaf," ebe'r boneddwr drachefn. "Wel, ynte, chwi gewch ddau fox am geiniog," ebe'r boy bach o'r diwedd. "Ac felly, er mwyn cael gwared arno," meddai'r boneddwr, "mi brynais y box. Ac wedi hyny, mi gefais nad oedd genyf ddim newid, a dywedais, mi brynaf fox yfory." "O, da chwi, prynwch heddyw, os gwelwch yn dda," ebe'r bach yn daer iawn. "Mi reda' i i ymofyn newid, canys yr wyf bron newynu." Felly rhoddais y swllt iddo, brysiodd yntau i ffwrdd. Arosais, yn dysgwyl, ond ni ddaeth yr un bachgen. A chredais fy mod wedi colli fy swllt. Ac eto yr oedd rhywbeth yn wyneb y bachgen oedd yn peri imi gredu ynddo. Nid oeddwn yn foddlawn meddwl yn ddrwg am dano. Ac yn hwyr y nos hono, daeth y forwyn ataf a dywedodd fod crwt bach wrth y drws ag arno eisieu fy ngweled. Pan ddygwyd ef i fewn gwelais mai brawd llai oedd i'r

bachgen oedd wedi cael y swllt, ond os oedd bosibl, mwy bratiog a thlawd a theneu. Safodd foment yn gwthio ei law i lawr i'r bratiau, fel pe i geisio rhywbeth ; ac yna gofynodd, "Ai chwi yw'r boneddwr brynodd y *matches* gan Nedi fy mrawd" "Ie." "Wel, ynte, dyma i chwi rôt allan o'ch swllt. Ni all Nedi ddim dyfod. Nid yw yn iach. Rhedodd y cart drosto, tarawodd ef i lawr, collodd ei gapan, a'i *fatches*, a'ch saith ceiniog chwithau. Ac y mae wedi tori ei ddwy clun. Nid yw yn dda ytôl, ytôl, a dywed y meddyg y bydd farw. A dyna'r cwbl all e roi i chwi 'nawr," a dyd y pedair ceiniog ar y bwrdd, ac yna tor allan i wylo. Ac felly rhoddais bryd o fwyd i'r gwr bach, ac aethum gydag ef wedi'n i wel'd Nedi. Cefais fod y ddau grwt bach yn byw gyda llysfam feddw, wael, druenus ; eu tad a'u mam, y ddau wedi marw. Cefais Nedi yn gorwedd ar grugyn o naddion coed (*shavings*). Adnabyddodd fi ar unwaith, a dywedodd, "Cefais y newid, syr, ac yr oeddwn ar y ffordd atoch, pan y tarawodd y ceffyl fi i lawr a thorais fy nwy clun." Ac O, Tomi, Tomi bach, 'rwy'n siwr fy mod yn marw, a phwy ofala am danat ti pan fyddaf fi wedi myn'd ? Be' wnei di, Tomi bach ?" Cydiais yn dyner yn llaw y truan tlawd, a dywedais y gofalwn i am Tomi. Deallodd fi, a chafodd ddigon o nerth i edrych y diolch nas medrai ei lefaru ; ac yna aeth y goleu allan o'r llygaid gleision ac mewn eiliad, dan lewyrch gwyneb yr Arglwydd, cyrhaeddodd ororau y byd anfarwol, lle y peidia yr annuwiolion â'u cyffro, lle y gorphwys y rhai lluddedig.

R. COLLYER.

O FOR I DEIFI.

Trueni marw o'r tir wroniaid hen ffasiwn fel Enoc yr Esger. 'Does genyf fawr gof am dano. Yr oedd wedi cyrhaedd henaint gwyrgam, byr-anadl, cyn i mi erioed ei weld. Gwr cadarn oedd yn ei ddydd ; ac nid un a fu byw a marw ar dyddyn ei gyndeidiau ychwaith. Oni fu yn nghynhauaf Sir Henffordd am flynyddau ? Ac onid oedd yn wr a fedrai Saesneg, o leiaf medrai'r iaith fain i berffeithrwydd eithriadol ag ystyried yr anwybodaeth o Saesneg a ffynai yn ei oes. Gweithiodd fel slâf yn anterth ei ddydd ; enillodd ei fara beunyddiol drwy chwys gonest ei dalcen, darllenodd lawer ar ei Feibl Cymraeg, myfyriodd lawer ar yr Efengylau yn ei ddull trwsgl ei hun. Gweddiodd wmredd yn nghyrddau Bwlchygroes ac yn ngwylnosau'r wlad ; fel yr adfeiliai ei gorff ai ei weddi yn addfetach addfetach ; a gwywodd i'r bedd heb erioed holi cwestiynau enfawr dirgelwch bod a byw. Yr oedd y Beibl wedi eu hateb iddo cyn iddynt erioed gael eu gofyn ganddo. Onid ydych wedi sylwi ar athroniaeth bywyd y werin bobl ? Hyny yw, athroniaeth y *ddyledswydd* o fyw. Cydmarwch hi ag athroniaeth geintachlyd y dosparth canol yn y wlad, mai *penyd* yw bywyd, ac nad oes dim i'w wneyd ond cymeryd y llwybr esmwythaf trwy fywyd. 'Dyw yr hyn a elwir hunan-wybodolrwydd wedi anafu dim ar y werin syml. Edrychai Enoc ar fywyd fel wedi ei roddi iddo oddiuchod. Mae bywyd yn felus, meddai, hyd yn oed ar faidd a bara barlys Mae bywyd yn chwerw, medd gwr y ddantaith a'r gwin. A chymer natur ef ar ei air,

a rhydd i'w wyrion a'i or-wyrion y drugaredd o ddifodiant, tra mae teulu Enoc hyd heddyw, yn hapus a syml, yn addurno daear Duw ar fryniau Capel Cynon. Gwr gonest ydyw camp-waith penaf Duw, a gwr gonest oedd Enoc yr Esger ; un o blant cryfion natur. Gwyn eu byd y rhai a fedrant droi wermod bywyd yn win, hwynt-hwy a etifeddant y ddaear. Cas genyf yr hwn a gâr ddifodiant esmwyth yn hytrach na bodolaeth ddyddorol, os anesmwyth ar droion. Digon o dâl am noson hir ac oer a du ydyw ardderchowgrwydd codiad haul ; pwy na heriai y diwrnod tymhestlocaf i weled gogoniant cawr y dydd yn machlud ? Y mae cipolwg ar las y nefoedd yn werth mil o gymylau, ac y mae un seren yn werth pentwr o gaddug y nos. Diolch it', Enoc, am ddwyn i mi y meddyliau hyn ; gwerthfawr i mi os nad i neb arall. Y mae'r Esger yn furiau moelion a'i nenfwd yn ganddryll a'r aelwyd yn oer ac anhygyrch. Tyf y borfa fras a mieri a drysni hyd olion ei welydd, ac edrych y llwynog allan drwy ei ffenestri. Y mae'r fan yn anghyfanedd. Ai yn ofer y buost fyw, Enoc ? Ai tir anghof yw dy etifeddiaeth heddyw ? Na, y mae dynoliaeth yn nes i'r nefoedd o'th herwydd. Rhoddaist gam tuag at berffeithrwydd, a thrwyddot symudodd dynoliaeth fymryn yn ei blaen. Dynion mawr sy'n gwneud hanes, medd Carlyle. Ni wiw coelio'r oll a ddywed yr hen Ysgotyn chwerw-gall hwnw chwaith. Wrth feddwl am Enoc yr Esger, braidd na wnawn ninau haeriad cyferbyniol, a dweyd, dynion dinôd sy'n gwneyd hanes. Dynion fel Enoc, beth bynag, yw halen y ddaear. Y mae Enoc, er's blwyddi, fel yr awgrymais eisoes, wedi myned adref. Yn ei ymyl, tu arall i'r nant y preswyliai Dafydd Jones, gwr llariaidd, mwyn, tawel a duwiol. Mor fwyn, mor garuaidd, mor garedig. Pwy feiddiai ar y ddôl wair, neu ar y cae llafur, ddweyd gair drwg, neu ystori ysgafn os y byddai Dafydd gerllaw ? Rhoddai geiniogau i'r plant, benthyg punt i ddyn gwan, a chardod i'r tlawd ag un llaw, ac nis gwybyddai'r llaw arall. Pan fu farw Dafydd, 'doedd neb yn y gymydogaeth yn amheu nad oedd un yn rhagor yn canu yn nghôr y nefoedd. Hyd heddyw credaf ei fod yn wr da, a chyfiawn a gonest ; yn un o foneddigion natur ac yn wr etholedig Duw. I'w dy ef yr wyf yn cofio myned i gwrdd gweddi gyntaf erioed. Byddai y capel yn rhy bell, a'r llwybr ato yn rhy arw i fobl ein cymydogaeth ni ; felly byddai cyrddau gweddi hyd y tai ffermydd o gylch. Pwy nas gwyr am danynt ? Felly ni roddaf ddesgrifiad o honynt. Eu heffaith arnaf fy hun yw'r unig beth o ddyddordeb i mi ac i'r darllenydd, os dyddorol hefyd. Cofiaf fyned dros y rhos, a thrwy gors a gwaen, wrth oleu'r llusern rydlyd i gwrdd gweddi Nantycwnstabl. Yr oedd yr hen bererin duwiol, Ifan Griffiths, Glynhynod, yn y cwrdd, ac efe, os nad wyf yn camgymeryd, oedd blaenor y gân. Pa dangnefedd, pa heddwch nefol ddisgynai ar fy yspryd ieuanc yn y cwrdd hwnw ! Mor naturiol, mor ddi-holi y derbyniwn y dylanwad, fel blodyn Ebrill yn derbyn y gawod o'r ffurfafen. 'Does dim ond yr argraff gyffredinol yn aros. A'r unig beth a gofiaf yw canu'r emyn ar y diwedd :

"Yn dy waith y mae fy mywyd
Yn dy waith y mae fy hedd,
Yn dy waith yr wyf am aros
Tra b'wy'r ochr hyn i'r bedd.

Apeliai'r canu 'n gryf ataf, oblegid anaml y clywn ganu gweddol dda. Ac yr oedd y geiriau, a'r gân a'r yspryd oll, yn dod i mi oddiuchod. Yn mhlentyndod dyn, fel ieuenctid y genedl, mor agos y mae Duw—yn y cwmwl, yn y fellten, yn yr awel, mor agos. Ac mor bell, mor bell, yw Duw'r Athronydd a'r gwyddonydd—mor anfeidrol bell. Ac erbyn heddyw ddarllenydd, yr wyt ti a minau mewn addfedrwydd oedran, yn cymeryd cipdrem o bell ar y greadigaeth ac arnom ein hunain, nes y mae daear-

yddiaeth y naill a'r llall mor eglur nes colli pob swyn dirgelwch. Ac wele ni, fel duwiau yn gwybod y da a'r drwg, yn enwedig yr olaf. Mewn oedran gwr yn blant, ac yn tybio ein hunain ogyfuwch a'r angylion, os nad ris yn uwch. Pa bryd y sylweddolwn fychander ein gwybodaeth? Hawdd credu yn mychander ein gwyddor a mawredd ein heneidiau. Er mwyn mwyhau'r greadigaeth, 'does eisieu bychanu dyn na diddymu Duw. Cas gan waelodion fy nghalon chwerwder coeg-wagedd a chul-fychander ffugwyddor y dydd! Yr erthylod ysprydol a droant eu trwynau i fyny wrth edrych ar ddyn a natur, y rhai a grefant am ddiddymdra, ac a lwyr haeddant eu gwobr. Ond dyna ddigon. Diolch mai fy Nuw i yw

"Duw mawr y rhyfeddodau maith,"

nid mewn ystyr efengylaidd efallai, eto yn ystyr eang y geiriau.

Ar ganol rhos ddu fawnog gerllaw'r ardal yr wyf newydd son am dani y preswylia hyd heddyw wr a edmygaf yn fawr, un T.G., a'i gydmares. Hogyn ieuanc pedwar ugain oed yw T.G. a'i farf a'i wallt yn ddu fel y fran, a'i anadl yn hir a'i gam yn hoew a'i ysgwydd yn llydan a chryf. Gwr yn byw yn anadl y rhos, ac heb ei ladd gan ddanteithion bywyd. Gwae'r hwn sydd slaf i ddantaith! Y mae ei ddyddiau eisoes wedi eu rhifo. Llaeth a bara a dw'r, caws ac ymenyn ac enwyn, awyr bur a thir glas, clawdd ac eithin a grug, brethyn du'r ddafad a chrafet a chrys gwlanen, aradr a phladur ac haiarn tyweirch, cryman a chaib a rhaw, Beibl ac esponiad, ambell i beint ar ben ffair a chwarter o ddybaco cryf, ac oes iach hir—dyna elfenau bywyd T.G. O na, nid anifeilaidd ei fywyd, ond ysprydol hefyd; y mae cariad yn ei fynwes os nad oes llawer o feddyliau mawr yn ei ben, ac y mae golwg lled glir ac iach ganddo ar y greadigaeth. Faint yn fwy pell, gyfaill dwfn-ddysg, y treiddia dy athroniaeth i ddirgelion y greadigaeth hon? Dim: i ti a T.G. y mae môr dirgelwch yn ddiderfyn. Yr wyt ti a minau yn ymfalchio yn y ffaith nas gwyddom ni na neb arall. Y mae T.G. yn ddigon call i beidio ymfalchio er y gwyr. Ond eto i T.G. y mae bywyd yn felus, am y cred ei fod felly. Pobpeth a ddyry dyn am ei einioes. Deddf gyntaf bodoloeth. Diwerth yw bywyd; arwydd sicr difodiant. Da genyf fyw, pe bai ond er gweled y friallen felen yma yn gwenu yn ngwyneb heulwen Mawrth ger fy nrws. Pe bai ond gweled gwên hen gyfaill gerais gynt. Pe bai ond er gweled y nef serenog neithiwr. Gerllaw yr un fro y mae cwm cul eithinog, ac un graig yn tori allan o ystlys y bryn. Y mae Cerdin yn rhedeg dan bontbren gul, drwy hesg a helyg a gwern, a swn ei murmur, gyda distawrwydd y nos, yn llanw'r cwm a thonau tyner o ddwndwr gogleisiol. Gwerth genyf fyw blwyddyn faith ofidus i roddi tro ar dawelwch Sul i weled blaen y gwanwyn yn dangos ei wyrdd yn nghrinder gauafol yr hen ddyffryn. Peth clasurol yw blodyn. Un o glasuron natur yw llyfr y goeden. Daw argraffiad ar ol argraffiad o'r gyfrol o wasg y meistr-argraffydd, ond O! mor newydd, ac mor anghyfnewidiol. Portreada'r clasuron, hyny yw, y gwir glasuron, gymeriadau anghyfnewidiol dynoliaeth. Portreada llenyddiaeth y dydd agweddau ar ddyn sydd yn cyfnewid o oes i oes. Bydd Job fyw yn hirach na Tomos Bartley, am ei fod yn gymeriad mwy cyffredinol i bob oes. Bernir hefyd y clywir *Hamlet* pan y bydd y *Mighty Atom* wedi ei chwalu'n llwch. Y mae Enoc yr Esger, a Dafydd Jones, a T.G. yn gymeriadau clasurol i'r graddau eu portreadir yn ymladd brwydr galed a natur, ac yn chwilio'n ddyfal am Dduw. Dilledyn am y dydd yw'r got ddu'r ddafad; ond y farf ddu a'r croen garw, gwydn a gonest—pethau clasurol ydynt hwy; gwelir hwy yn ngherfluniau marmor Groeg fel yn fyw ar fryniau Ceredigion. Hoffwn ddweyd gair

am D.J., gwr gonest, cynil, llawn chwerthin iach ac ystoriau am ddyddiau 'slawer dydd. Y mae'n lled gymhercin erbyn hyn. Yntau hefyd sydd wedi gweled gwth o oedran. Ond y mae dyddiau gwas'naethu tua Blaenau Gwenog, dyddiau ffeiriau ceffylau gynt, ac amser gyru eidionau wedi eu pedoli i Lundain, oll yn aros yn fyw yn ei gof. Pleser ymgom ag ef am hen ffermwyr cyhyrog, am hen bregethwyr cwrs a ffraeth ond duwiol, am hen ysgolfeistri creulon ond effeithiol, am hen dafarndai cysurus, am helyntion difyr caru a chyfeddach, i'r rhai oll mae D.J. 'n fyw ac yn effro ddigon. Iddo ef mae'r gorphenol yn fyw, yn farddoniaeth fyw ; mae'r presenol yn bwl, yn farwol bwl ; a'r dyfodol yn ddu, yn annyddorol ddu ; ac y mae ei yspryd yn yspryd gwengar diymofyn y plentyn. Gwyr, ond nis gwyr y gwyr. Y mae'n ddoeth, gyda doethineb diddysg y plentyn. Car ei ardd, a'i flodau, a'i fel ; ond nis gwyr ei fod yn fardd. Car ei wraig a'i blant, a'i fwthyn gwyn a glan, y mae'n byw yn dawel a dedwydd, ac nis gwyr ei fod yn ddoeth. Y mae'n hapus, ond heb yn wybod iddo ei hun, Dedwydd, ddedwydd wr. Rhed yr afon heibio drws ei dy, cân y ceiliog mwyalch yn ei ardd, rhed y wningen heibio ei ddor, y mae'r fronfraith ar ddraenen ei glawdd, daw'r frongoch i'w drothwy, daw'r gwynt drwy ei ystafell ; daw'r gwlaw drwy ei simdde a'r eira dan y drws, chwardda'r bioden tu cefn i'r ty, nytha'r brain yn y coed gerllaw ei fwthyn, uda'r gadnawes yn yr eithin heb fod neppell, heda'r crychydd glas ar aden ledan ddiog heibio'r fan, cwyd yr haul dros y bryn gyferbyn a machluda gogyfer, o ddydd i ddydd, o fis i fis, o flwydd i flwydd, a dirwyna einioes D.J. i ben, ond nis gwyr. Mwy na'r baban yn cael ei suo i gysgu ; ef yw'r baban, natur yw'r fam.

S.

CONGL YR AWEN.

YR ADFAIL AR Y BRYN.

Hoffus adfail ! gweddill oesau
Yw yn huno'n isel ben,
Derwen dewfrig sydd yn dadleu
Ei iawnderau yn y nen ;
Oes elfenau cydymdeimlad
Yn y gwyntoedd, yn y gwlaw ?
A yw'r fellten dan waharddiad
Llym i ymwareiddio draw ?

Hen anedd-dy diymhongar
A sylfaenwyd ar y creig,
Fagodd gewri goreu'r ddaear,
A'i hynodrwydd yn Gymreig,
Oesoedd cyn i'r ager ruthro
O dan wadnau'r mynydd trwm,
A chelfyddyd i freuddwydio
Am y pentref yn y cwm.

Hoffa'r iorwg a'r mieri
Ddringo'r muriau isel llwyd,
Ac yspio drwy'r ffenestri
Fel yspeilwyr drwg eu nwyd ;
Ger y mur un rhosyn tirion
Sydd yn herio gwawd a llid,
A ffyddlondeb yn ei galon,
A gonestrwydd yn ei wrid.

Gwedd y gegin mwy a'r parlwr
Glwyfa galon ser y nen,
Derw'r nenfwd sydd yn bentwr
Gyda meini dan eu pen ;
Yn y muriau yn breuddwydio
Mae ysprydiaeth llawer câd,
Ambell gareg sydd yn treiglo
Tua'r cwm fel darn o frad.

Tawel ydyw'r fangre weithian
Heb atdyniad amlwg, hardd,
Dim ond swn y pistyll bychan
O dan gysgod clawdd yr ardd ;
Gylch y muriau dawnsiai nwyfiant
Pan fu'r gelyn yn y glyn,
Amlen cyfrol llawn o ramant
Ydyw'r adfail ar y bryn.

Y mae heddyw'n gysegredig
Gan y tadau yn y ne',
A'u hysprydiaeth gwefreiddiedig
Eto yn trydanu'r lle ;
Delw'r muriau bortreadir
Gan yr heulwen ar y glyn,
A'r hen adfail ni anghofir
Tra fo creigiau yn y bryn.

Fronwen, TOM THOMAS.
Llandyssul.

MIS EBRILL.

Fel cyfyd haul y boreu
I wynnu gwên y wawr,
Daw Ebrill ar ei oreu
I loewi lliwiau'r llawr ;
Daw ambell ddeigryn disglaer
O gymyl goleu Duw,
A gwisgir broydd hoff fy ngwlad
Gan fil o berlau byw.

Daw'r awel fel angyles
A'i thelyn yn ei llaw,
Nes deffry cerdd fy mynwes
Fel odlig "byd a ddaw";
Daw'r lili fel brenhines
A'i grudd mor sanctaidd wyn,
Nes cwyd dyhead yn fy mron
Am fyd heb fedd na glyn.

Mae pobpeth fel pe'n profi
Tra Ebrill ar ei daith,
Fod boreu dydd y codi
O hyd yn fyw i'w waith ;
Daw egin gwyrdd y goedwig,
A myrdd o adar mân, [bedd,
I ddweyd fod engyl wrth bob
A'r byd i gyd a gân.

T. L. JOSEPH.
Athrofa Bala-Bangor,
Gogledd Cymru.

JOSEPH BLANCO WHITE (1775-1841).

Y mae yna ryw ddyddordeb byw mewn olrhain a gwylied treigl meddwl dyn mawr trwy symudiadau a chyfnewidiadau oes. Dyn mawr oedd Mr. Blanco White, mawr ei ddysg, ei ddawn, a'i ddylanwad. Ganwyd ef yn Seville yn Hispaen. O du ei dad yr oedd ynddo waed Gwyddelig. Yn wyth oed fe'i dodwyd ef yn swyddfa ei dad yr hwn oedd farsiandwr gwlan, &c. Yno fe'i dysgwyd gan glerc Gwyddelig i ysgrifenu a rhifyddu tipyn, ac yn fuan i siarad Saesneg gyda chryn rwyddineb. Gynted y dysgodd ysgrifenu yn weddol, fe'i dodwyd i gopio gohebiaethau'r swyddfa yn Saesneg ac Hispanaeg. Wedi hyny talodd gryn sylw i gerddoriaeth a dechreuodd ddysgu Lladin ; ond bratiog hytrach oedd ei addysg yn ei olwg ei hun. Bwriadai ei dad ef i fod yn farsiandwr, ond cyn hir amlygodd y gwr ieuanc ei ddymuniad i fod yn offeiriad Pabaidd. Cafodd bob anogaeth i'r cyfeiriad hwnw gan ei fam, a danfonwyd ef i ysgol barotoawl am ryw ddwy neu dair blynedd. Yn 14eg oed, a chyn ei fod yn gwybod nemawr ddim am yr ieithoedd clasurol, na dim llawer, ebe efe, o ddim arall, fe'i cymerwyd

o'r ysgol. Nid oedd wedi darllen nemawr ddim ond hanes y seintiau a Don Quixote, llyfr a syrthiodd yn ddamweiniol i'w law, a'r hwn a ddarllenodd gyda gwanc, er yr ystyriai ei dad ef yn llyfr peryglus. Yn mhen amser ar ol hyn fe aeth i'r coleg ac wedi hyny i brifysgol Seville, lle y gweithiodd yn galed ac yn llwyddianus.

Pan ddaeth i'r oedran priodol cafodd ei urddo'n offeiriad a'i benodi'n gaplan yn y Capel Breiniol, lle y darlithiai ar farddoniaeth. Yn fuan ar ol hyn collodd bob cred yn y grefydd Babaidd, ac mewn Cristionogaeth hefyd, er iddo barhau am dymhor i weini yn yr eglwys. Bob yn ychydig teimlodd hyny yn ormod baich ar ei gydwybod, ac felly ymddiswyddodd ac am ddwy flynedd bu'n golygu papyr wythnosol yn Seville. Yn 1810, daeth i Loegr, gan fwriadu gadael gwlad ei enedigaeth am byth. Edrychodd eto i hawliau Cristionogaeth, daeth yn grediniwr, ac ymunodd ag Eglwys Loegr. Wrth son am ei newid meddwl fe ddywed fel hyn :

"Nid oes genyf un rheswm i ameu nad wyf yn awr a phob amser yn barod i ddilyn y gwir drwy gollfeydau a pheryglon, trwy anrhydedd a dianrhydedd, ond yn gymaint ag nad yw y gwir wedi ei amlygu i mi yn y fath ffrwd o oleuni ag yr ymddengys yn ffrydio ar rai dynion, i lygad fy meddwl i ymddengys megys rhyw seren fyw, fechan, befriol mewn ystorm—am foment yn ymddangos gyda phrydferthwch sy'n swyno fy nghalon, ac yna'n ymgolli yn y fath gymylau ag a'm gwnelai, pe bai'm ffydd yn llai, i led-dybio nad oedd y goleu clir o'r blaen ond math o hud twyllodrus. Yr wyf wedi ymroddi i'r arbrawf hir a phoenus hwn, gan ei wneuthur yn rheol i fyned rhagof, trwy wyll neu wawl, bob amser yn y cyfeiriad y byddo'r goleuni'n ymddangos."

Symudodd o Lunden i Rydychen, ond wedi ychydig aeth yn athraw am dymor i feibion Lord Holland. Cafodd lawer o garedigrwydd yno ; ond wedi dwy flynedd dychwelodd i Rydychen, lle'r arosodd hyd 1826. Yn ystod yr amser hwnw cyhoeddodd amryw lyfrau gwerthfawr. Yn 1832, pan ddyrchafwyd ei hen gyfaill Dr. Whateley i fod yn archesgob Dublin, derbyniodd wahoddiad i fyw yn y Palas Archesgobol. Arosodd yno dair blynedd a chyhoeddodd ei "Second Travels of an Irish Gentleman."

Tua'r adeg hon daeth dan ddylanwad y Parch. George Armstrong (tad y diweddar R. A. Armstrong, onide), ac heb fod yn hir gorfu iddo addef ei hun yn Undodwr, ac nas gallai aros yn hwy yn mhalas yr Archesgob. Felly unwaith eto y mae dan orfod symud ac aeth o Dublin i Lerpwl. Teimlai'n drist iawn yn wyneb yr ymadawiad hwn oddiwrth un oedd wedi profi'n gyfaill ffyddlon iddo, ac yn y rhagfeddwl am ei symudiad yr ysgrifenodd, y byddai, oherwydd y caredigrwydd mwy na brawdol oedd wedi gael, yn fwy poenus iddo na marwolaeth ei hunan. Er mwyn tegwch yr oedd yn rhaid i'r symudiad gymeryd lle, cyn ei ymneillduad cyhoeddus oddiwrth yr eglwys, o'r hon yr oedd ei gyfaill yn un o'r blaenoriaid mwyaf enwog.

Cafodd dderbyniad gwresog yn Lerpwl gan gyfeillion lawer, ac yno y treuliodd weddill ei oes. Dyma ei ddesgrifiad o'r argraff adawyd ar ei feddwl gan yr ymweliad cyntaf a wnaeth a lle addoliad yn mhlith yr Undodiaid : "Dyma fi wedi dychwelyd o'r capel yn Paradise Street*—y tro cyntaf i mi fod mewn capel yn perthyn i'r Ymneillduwyr, ac yr wyf yn teimlo'n foddhaus iawn. Ar ol tymor mor hir o deimladau a thybiau croes, y mae yna rywbeth sydd i mi yn ddiddanus i fod mewn lle addoliad lle nad oedd dim ag oedd yn sarhad ar y rheswm a'r gydwybod. Yr oedd symlrwydd yr holl wasanaeth, yn nghyd ag effaith rhai o'r emynau mwyaf prydferth, y rhai a ganwyd gyda chwaeth perffaith, yn hyfryd i'r

* Capel y Parch. James Martineau.

meddwl. Yr oedd gweddiau y gweinidog yn dda iawn, a'r bregeth, yn benaf ar Rwymedigaeth Foesol, yn gyfryw nad allai lai na bod yn ddefnyddiol. Y fath gruglwyth o ragfarn a gawsai ei symud, pe byddai dynion a ddymunant fod yn anmhleidgar, yn ufuddhau i'r gorchymyn, Tyred a Gwel.

Tlawd fu yn ei iechyd o hyn allan. Parhaodd i fyfyrio ac i gyhoeddi. Tua'r adeg hon y daeth ei "Heresy and Orthodoxy" allan. Ymddengys ei syniadau yn nes i eiddo Undodiaid y dydd heddyw na'i ddydd ei hunan. Teimlai ddyddordeb mawr yn mhynciau'r dydd—Rhyddhad y Caethion, Sefydliad y *Domestic Mission*, &c.

Yn gynar yn 1841, derbyniodd wahoddiad i dŷ Mr. William Rathbone, ychydig allan o'r dref, ac yno y treuliodd weddill ei oes, yn graddol nychu. Cafodd garedigrwydd mawr yno, ac ymddangosai peth arwyddion adferiad ar y dechreu; ond yn fuan gwelwyd mai ymollwng oriwaered yn raddol oedd, ac am dri mis, yn ei eiriau ei hunan —"He lingered in the face of death." Teimlai gysur mawr yn y meddwl ei fod wedi cyfranu ei hatling fechan tuag at ryddid dynolryw. "Nid wyf," meddai, "wedi ffurfio tybiau mor benodol (*definite*) yn nghylch y bywyd dyfodol â rhai, ond yr wyf yn gwbl hyderus ynddo. Duw sydd wedi gofalu am danaf hyd yma. Mi ymddiriedwn mewn cyfaill, ac oni allaf ymddiried ynddo Ef. Nid oes yn fy meddwl un rhith o amheuaeth."

Treuliodd ei ddyddiau olaf mewn math o hun, ond ar fore'r ymollyngiad (Mai 24, 1841) deffrodd a llefarodd yn gadarn ac yn groyw—"Now I die," ac yn mhen dwy awr yr oedd yr elfen fywiol wedi diflanu, a dim yn aros ar ol o'r hyn y mae awdwr diweddar wedi alw yn "Most illustrious and most learned of all Unitarian converts"—ond y babell o bridd lle yr oedd wedi trigo am yn agos i driugain mlynedd a chwech.

Dyddorol yw'r geiriau ysgrifenodd Dr. Channing ato:—"Y mae eich profiad yn gynllun o brofiad y byd. Yn eich bywyd byr yr ydych wedi pasio trwy *stages* sydd yn gofyn canrifoedd i'r hiliogaeth i'w pasio."

S.N.S.

(*Christian Reformer*, 1845, *pp.* 299, 358, 503).

TYFIANT CREFYDD YN SIR ABERTEIFI.

Y peth a glywir yn cael ei ofyn yn bur fynych gan y naill berson i'r llall, yw, "I ba enwad yr ydych yn perthyn?" Beth yw yr amcan mewn golwg wrth ofyn y fath gwestiwn, nis gallaf ddweyd. Yr ydym yn gwybod fod amser wedi bod yn y wlad hon, pryd na feiddiai neb son am un fath o grefydd, ond yr un sydd yn perthyn i'r Eglwys Sefydledig, beth bynag fyddai hono ar y pryd. Cospid yn llym y neb a ddywedai ddim yn ei herbyn, neu a goleddai un syniad gwahanol os deuai yr awdurdodau gwladol i wybod. Rhoddwyd ugeiniau i farwolaeth o bryd i bryd. Trwy filwrio hyd angeu y caniatawyd y rhyddid crefyddol ydym yn fwynhau yn bresenol. Ac eto mae lle i ofni os na fyddwn ar ein gwyliadwriaeth y dichon y rhyddid hwn gael ei gymeryd ymaith gan awdurdodau diegwyddor y cyfnod presenol. Yn y

flwyddyn 1688 y dechreuodd yr Ymneullduwyr fwynhau ychydig ryddid crefyddol. Pasiodd yn agos i ddau can' mlynedd cyn i ni enill y safle yr ydym yn sefyll ynddi yn bresenol. Yr hawl ddiweddaf o du yr Ymneillduwyr gafwyd yn y flwyddyn 1880, sef Deddf Newydd Claddu yn y Mynwentydd Plwyfol.

Yr ydym yn cael hanes am yr Eglwysi Ymneillduol ar y dechreu yn myned dan yr enw Eglwysi Henadurol, ac i ddadleuon pwysig dori allan yn eu plith oddeutu y flwyddyn 1700, sef methu cydweled yn nghylch athrawiaeth y Drindod, Pechod gwreiddiol, ac ymranu gyda golwg ar farnau crefyddol, megis Calfiniaid, Arminiaid, &c. Y pregethwr Arminaidd cyntaf yn Sir Aberteifi, fel yr ydym yn cael hanes, oedd y Parch. Jenkyn Jones, aelod o Eglwys Pantycreuddyn, yr hon oedd wedi ei ffurfio yn y flwyddyn 1700. Ganwyd y Parch. Jenkyn Jones yn mhlwyf Llanwenog ; aeth i Athrofa Caerfyrddin yn y flwyddyn 1721, a chafodd ei urddo yn y Ciliau a'r capeli cylchynol yn 1726. Yr oedd yn ddyn ieuanc dysgedig hawddgar, ac yn bregethwr doniol. Priododd foneddiges gyfoethog ac felly daeth i sefyll yn dra uchel yn y wlad. Oddeutu y flwyddyn 1729, efe a ddechreuodd bregethu a dadleu golygiadau Arminaidd, a chafodd ei ategu gan Abel Francis, Rhys Davies, a Charles Winter. Achosodd hyn aflonyddwch yn Mhantycreuddyn, a dadleuon brwd trwy'r wlad. Yr oedd James Lewis, Pencader, yn preswylio yn agos i Pantycreuddyn, ac yn weinidog yr Eglwys. Daeth Mr. Lewis allan yn gadarn i amddiffyn Calfiniaeth, yn yn cael ei gynorthwyo gan Cristmas Samuel. Amddiffynodd Jenkyn Jones ei olygiadau mewn llyfr o'r enw "Cyfrif Cywir o'r Pechod Gwreiddiol," yn y flwyddyn 1730. Cyhoeddodd James Lewis a Cristmas Samuel atebiad iddo, o'r enw "Y Cyfrif Cywiraf o'r Pechod Gwreiddiol." Yn y flwyddyn 1732 daeth "Gair yn ei Bryd," oddiwrth Enoch Francis i amddiffyn Calfiniaeth, ac "Hanes Pelagius" gan Simon Thomas, Henffordd, yn 1733, i wrthladd Arminiaeth. Cyhoeddodd Jenkyn Jones, Gatecism yn 1735, ar bynciau crefyddol yn cynhwys Gweddi yr Arglwydd a Chredo yr Apostolion. Cyfieithodd tra fu yn yr athrofa "Llun Agrippa." Bu farw yn 1742. Cyhoeddwyd ei Hymnau gan ei fab-yn-nghyfraith, D. Lloyd, yn cynwys 84 o dudalenau. Wele engraifft o un o honynt :—

"I adrodd gweithiau hael
A'i gariad pur nis gellir cael
Na geiriau llwyr na myfyr maith ;
Rhy fyr yw'm cof, rhy gul yw'm iaith."

Mae ganddo gyfansoddiad ar "Y 5ed o Dachwedd, dydd Brad y Powdr Gwn a Dyfodiad y Brenin William III." Ceir iddo farwnad gan Evan Thomas, o Lanarth, ar fesur "Gwel yr Adeilad." Adeiladodd Mr. Jones gapel cyntaf Llwynrhydowen ar ei dir ei hun yn y flwyddyn 1726, a chafodd y gwr da hwnw y boddhad o weled chwech o gapelau yn ei ddylyn yn ei athrawiaeth. Mae y rhai hyn wedi tyfu i goleddu syniadau Undodaidd, fel y mae erbyn heddyw yn Sir Aberteifi bedwar ar ddeg o gapelau Undodaidd wedi eu sefydlu fel y canlyn : Caeronen, (sefydlwyd 1672), Ciliau Aeron (1689), Llwynrhydowen (1726), Alltyplaca (1740), Cribyn (1790), Capelygroes (1802), Pantdefaid (1802), Rhydygwin (1802), Capel-y-fadfa (1814), Capel-y-bryn (1836), Llandyssul (1868), Llanbedr (1874), Sychbant (1896), Aberystwyth (1902).

Gallwn feddwl mai gorchwyl lled anhawdd fyddai rhoddi hanes cychwyniad yr Undodiaid yn Ynys Prydain. Ymddengys eu bod yma yn lled foreu. Yr ydym wedi gweled hanes am un o'r enw Assheton, offeiriad yn cael ei gyhuddo yn 1540, o flaen Cranmer. Rhwng y blynyddau 1640 a 1648, yn ol dim a allaf ddeall, yr erlynwyd Paul Best a John Biddle am heresi. Pregethu

a gwadu Duwdod a Iawn Crist oedd y drwg, ond arbedwyd eu bywydau trwy gyfryngiad personol Oliver Cromwell. Cafodd John Biddle flwydd-dalsylweddol gan Cromwell er ei gynorthwyo i fyned yn ei flaen. Yr oedd yr yspryd erlidgar hwn yn erbyn y Bedyddwyr yr un fath. Yr Undodiaid a'r Bedyddwyr oedd o dan yr erledigaeth fwyaf yn y cyfnod hwnw, ond ni chafodd yr Undodiaid ryddid llawn fel y maent yn ei fwynhau yn awr, hyd y flwyddyn 1813. Yr ydym hefyd yn cael hanes am Theophilus Lindsey wedi sefydlu eglwys Undodaidd yn Essex Street yn Llundain 1774, ac y mae hon yn eglwys flodeuog yn bresenol mewn rhan arall o'r ddinas. Ni pherthyn dim i mi ddweyd am gredo grefyddol neb ond dywedaf hyn, mai y sawl a fyddo fwyaf dieuog o droseddu cyfraith Duw, ac yn llwyraf yn eu cydfturfiad â'r ewyllys ddwyfol yw y crefyddwyr goreu. Dyma y peth pwysig ddylai fod gan bob dyn yn brif amcan ei fywyd.

Llancrwys. D. LEWIS.

MARWGOFION.

IONAWR 27, o'r darfodedigaeth William Davies, *stone-cutter*, Carrara House, Llanbedr, yn 55 mlwydd oed. Yr oedd yr ymadawedig yn mhell o fod wedi ei ddonio âg iechyd da drwy ei oes, ond yr oedd y rhan fynychaf yn ffyddlon ganlyn ei alwedigaeth hyd tu fewn i ychydig flynyddoedd diweddaf ei fywyd. Hawddach o lawer oedd adnabod y ty y preswyliai ein cyfaill ynddo na'i breswylydd, ac yr oedd yn rhaid myned yn agos neillduol ato cyn cael golwg iawn arno o gwbl. Gair garw a swrth oedd ei air cyntaf, ond yn raddol deuai i'r golwg ddyn llawn o dynerwch, o gydymdeimlad, ac o garedigrwydd eithafol. Yr oedd yn aelod o eglwys Brondeifi, ac yn un a ddygai fawr sel yn ei ffordd ei hun tros lwyddiant yr achos yn y lle, a chelai y gweinidog ef bob amser yn gyfaill cywir, ffyddlon a dirodres. Gadawodd mewn galar dwys ar ei ol weddw, tri o blant, dwy chwaer, dau frawd, a pherthynasau eraill lawer. Claddwyd ei weddillion yn mynwent Brondeifi, a gwasanaethwyd ar yr achlysur gan weinidog y lle, yn cael ei gynorthwyo gan y Parchn. John Davies a Lewis Williams.

CHWEFROR 1, yn Cwmhendryd, plwyf Llanbedr, bu farw Mary Jones, chwaer John Jones, Hendryd, yn 75 oed, ar ol cystudd byr. Hebryngwyd yr hyn oedd farwol o honi i orphwys yn mynwent Capelygroes y Llun caulynol gan dyrfa luosog. Gweinyddwyd ar yr achlysur gan weinidog y lle.

CHWEFROR 7, Watkin Davies, Penbryn Cottage, Cribyn, yn 66 oed. Nid oedd wedi mwynhau iechyd da er's blynyddau, ond elai o amgylch hyd yr Hydref diweddaf, pryd y cyfyngwyd ef i'w ystafell. Yr oedd ein cyfaill cystal *type* o ddyn a ellid ddymuno cwrdd âg ef, a pherthynai iddo lawer o elfenau a'i gwnelai yn wrthrych parch pawb a ddelent i gyffyrddiad âg ef. Yr oedd yn aelod o gynulleidfa Cribyn er yn ieuanc, ac am ran helaeth o'i oes bu yn ddiacon a thrysorydd, a gwnaeth ei ran yn ffyddlon. Efe hefyd oedd dosbarthwr YR YMOFYNYDD yn y lle er's blynyddau. Dydd Mawrth canlynol hebryngwyd yr hyn oedd farwol o hono

; orphwys yn mynwent Cribyn gan dyrfa luosog. Pregethwyd yn y capel gan y gweinidog oddiar 2 Tim. iv., 7, 8—testyn o'i ddewisiad ef. Cymerwyd rhan yn y gwasanaeth hefyd gan y Parchn. Mr. Owen, ficer Ystrad, a Mr. Williams, Rhydygwin. Gadawodd ar ei ol weddw a nith (y rhai a weiniasant arno yn dyner trwy'r blynyddau), un chwaer a lluaws o berthynasau. Nerth a gaffont i beidio galaru yn ormodol.

CHWEFROR 9, Margaret, anwyl briod David Lloyd, 7, Clive Street, Trecynon, Aberdar, yn 37 mlwydd oed, gan adael pedwar o blant bach (dau fachgen a dwy ferch), heblaw ei phriod, i alaru eu colled. Gwasanaethwyd yn yr angladd gan R.J.J. a'r Parch. D. Silyn Evans, Siloa.

Yn nghanol dyrys bethau'r byd,
Dan wasg ystormus bla,
'Rwy'n glynu'n gryf wrth hyn o hyd—
Mi wn fod Duw yn dda.

CHWEFROR 9, yn 54 mlwydd oed, Anne Davies, Penllain, gynt o'r Llethr, ger Tregroes. Yn y cylch gwledig hwn y bu yr ymadawedig yn troi trwy ei hoes, ac enillodd iddi ei hunan le cynes yn mhlith ei hadnabyddiaeth. Yr oedd yn aelod o eglwys Pantdefaid, a thra y caniataodd ei hiechyd cyrchai yno yn ffyddlon. Y dydd Mercher canlynol i'w marwolaeth claddwyd yr hyn oedd farwol o honi yn mynwent Tregroes. Gwasanaethwyd a phregethwyd yn y ty gan y Parch. Arthur Thomas, yn yr eglwys ac ar lan y bedd gan Ficer y plwyf. Gadawodd yr ymadawedig bedair chwaer a brawd mewn galar ar ei hol.

CHWEFROR 15, Jno. Davies, Bryn-llwyd, Pencarreg, yn 66 mlwydd oed. Gadawodd weddw a phlant lawer, heblaw perthynasau eraill mewn galar ar ei ol. Claddwyd yn mynwent Brondeifi, a gwasanaethwyd gan y Parchn. Evan Evans ac R. C. Jones.

CHWEFROR 16, yn 28 oed, Tom Thomas, mab Thomas a Judith Thomas, Gwarffynon, Tregroes. Claddwyd yr hyn oedd farwol o hono yn Pantdefaid y dydd Mercher canlynol, pryd y gwasanaethwyd gan y gweinidog. Ymgysured y rhieni, y brodyr a'r ddwy chwaer yn ngwyneb y profedigaethau aml a'u cyfarfyddant.

"Duw doeth nid all, Duw da ni wna un cam,
Fe ddengys ei holl lwybrau yn ddi-nam."

CHWEFROR 17, Edw. Davies, mebyn Lewis Lewis, 9, Clive Street, Trecynon, Aberdar, yn 22 mis oed. Gwasanaethwyd yn y ty a'r fynwent gan R.J.J.

Bu farw plentyn ydyw llef marwolion ;
Fe anwyd dyn, hyn ydyw cân angylion.

CHWEFROR 17, ar ol cystudd byr, bu farw Margaret May, merch fach Mr. a Mrs. W. O. Evans, 10, Overton Street, Dowlais. Er nad oedd ond ieuanc (dwy flwydd a haner), yr oedd wedi gwneud ei hunan yn anwyl yn y teulu, ac yn hynod o ddeniadol i'r rhai a adwaenai ei ffordd. Claddwyd yr hyn oedd farwol o honi y Mercher canlynol yn Nghladdfa'r Pant, y gweinidog yn gwasanaethu, yn cael ei gynorthwyo gan y Parch. J. Hathren Davies, Cefncoed. Nerth a gaffo'r teulu i alaru yn gymedrol ar ei hol.

"She was here for a day,
To stamp on the clay,
A part of herself
That never may die."

CHWEFROR 18, yn 64 oed, Thomas Davies, Crugyreryruchaf, Talgareg, gan adael priod, merch, dau fab a llu o berthynasau eraill i alaru ar ei ol. Bu ein cyfaill ymadawedig yn clafychu am amser hir—diflanodd yn raddol. Yr oedd yn ddyn o yspryd tawel a chymwynasgar. Gellir dweyd fod pawb a'i hadwaenai yn ffryndiau iddo a hyny am y rheswm syml ei fod ef ef yn ffrynd iddynt hwy. Bydd ei le yn wag yn yr ardal. Dymunodd lawer am gael bywyd i weld agoriad capel newydd Bwlchyfadfa. Dim ond rhan o'r

deml welodd cyn cael ei deml arall—Jerusalem fy Nuw. Y dydd Iau canlynol daeth torf fawr i gludo ei weddillion i fynwent Bwlchyfadfa. Gwasanaethwyd yn y ty gan y Parch. T. Lloyd (E.S.) ac yn y capel gan y Parch. E. O. Jenkins.

CHWEFROR 19, Evan Evans, Morfa Cottage, Llanbedr, yn 21 mlwydd oed. Torwyd y dyn ieuanc hwn i lawr megys â dyrnod. Claddwyd yn mynwent Brondeifi, a gwasanaethwyd gan y Parchn. Evan Evans ac R. C. Jones. Gadawodd mewn galar dwys ar ei ol dad a mam, brawd a thair chwaer, a pherthynasau eraill lawer.

MAWRTH 8, ar ol ychydig ddyddiau o gystudd bu farw ein cyfaill mynwesol, Mr. Samuel Hughes, Llwynbedw, plwyf Cenarth, pan yn 78 oed, ac a gladdwyd y dydd Llun canlynol yn mynwent Capel Iwan. Yn y ty cyn cychwyn yr orymdaith darllenodd y Parch. Arthur Thomas, Llandyssul, ranau o'r Ysgrythyrau, a gweddiodd y Parch. D. S. Davies, rheithor y plwyf. Yn Nghapel Iwan darllenodd a gweddiodd y Parch. J. Davies (B.), Rehoboth, a phregethodd y Parch. Arthur Thomas bregeth ragorol iawn oddiar y geiriau hyny "Deuwch ataf fi," &c. Ar lan y bedd cafwyd anerchiad gan y Parch. Dr. Davies, a mynegodd ei gydymdeimlad a'r Parch. J. Williams, sef gweinidog a chyfaill calon iddo, a therfynodd y gwasanaeth angladdol trwy weddi. Yr oedd yr ymadawedig yn un o'r ffermwyr mwyaf cyfrifol a llwyddianus yn y gymydogaeth. Yr oedd yr angladd lluosog yn brawf eglur o'r parch mawr oedd iddo gan gylch helaeth o gyfeillion. Yr oedd yn Undodwr egwyddorol er pan yn ieuanc a chadwodd y ffydd yn ddifwlch hyd ddiwedd ei oes. Yr oedd yn flaenor yn eglwys Panteg, ac yn arweinydd y canu hyd y diwedd. Gellir dywedyd yn ddibetrus na fu ei ffyddlonach gydag achosion crefyddol; ni fyddai hin anymunol byth yn ei luddias rhag bod yn bresenol yn y gwahanol gyfarfodydd. Dyn unplyg oedd y diweddar Mr. Samuel Hughes, gonest, geirwir ac yn barod iawn i wneyd yr hyn a allai i bawb fel y canodd y bardd—

Yn rhwydd i bawb y gwnai yn fuan,
Yr hyn a hoffai gael ei hunan.

J.B.

MAWRTH 9, Hannah, gweddw y Parch. J. J. George, gweinidog am flynyddau yn Highland Place, Aberdar, yn 76 mlwydd oed. Bu farw yn mhen blwyddyn i'r dydd y bu ei phriod farw. Daearwyd yn y gladdfa gyhoeddus ar y Llun, R.J.J. yn gwasanaethu. (Gweler YMOFYNYDD Ebrill, 1905, tud. 87).

MAWRTH 15, bu farw Rachel, gweddw John Lewis, 21, Llewelyn Street, Trecynon, Aberdar, yn 55 oed, gan adael mab a merch a pherthynasau a chyfeillion lawer mewn galar. Bu Mrs. Lewis yn nychu am flynyddau, ond daeth y diwedd yn dra sydyn. Gwasanaethwyd yn y tŷ a'r fynwent gan R.J.J.

"Mae'n felus meddwl eto'n nghyd
Cawn gwrddyd yn y nef."

MANION AC HANESION.

IOLO MORGANWG.—Deallwn fod y gwr hwn wedi bod yn bwnc darlith yn ddiweddar yn Rhydychen a Manchester, y naill gan Mr. J. D. Jones, a'r llall gan Mr. Matthew Watkins. Da genym hyn.

CAERONEN.—Cynhaliwyd yr Wyl De flynyddol ar y 9fed o Fawrth. Ar ol y te cafwyd cwrdd adloniadol hynod ddymunol, a chymerwyd mantais ar yr achlysur i ranu yn mhlith y plant y Tystysgrifau oeddynt wedi enill yn yr arholiad am y flwyddyn 1905. Mae cronicl cwrdd

fel hwn yn fyr fel ag y dylai fod, ac nid yw ond awgrym o'r llafur a'r ffyddlondeb a wna ei lwyddiant yn bosibl o flwyddyn i flwyddyn.—R.C.J.

PENYBONT-AR-OGWY.—Dagenym gofnodi y ffaith fod cyfres o ddarlithau wythnosol yn cael eu traddodi o dan lywyddiaeth y Parch. D. Gwynog Rees yn yr Hen Gapel. Gelwir y cyfarfod yn *Bridgend Men's Open Meeting*, a chymer le ar Nos Fercher am 7.30 Mae y pynciau o nodwedd ymarferol hollol, a'r amcan yw dwyn i fewn awyrgylch iach a bendithiol i fywyd cyffredin pobl y dref. Cymerodd Mr. Rees ei hun y ddarlith gyntaf, Chwefror 7, a'r pwnc oedd, "Syniad Plato am Werinlywodraeth." Yr ail destun oedd "Burns, Bardd y Bobl," gan Mr. Fred Davies. Ar ol y ddarlith mae y cyfarfod yn agored i ymdrinaeth bellach. Mae Penybont yn edrych i fyny, diolch i ymdrechion ffyddlon Mr. Rees. Darfu dydd y pethau bychain, ac mae pob rhagolygon am eglwys gref ac iachus, lle o'r blaen nid oedd ond gwe'r pryf gopyn a seti gweigion.—G.J.

SYCHBANT.—Am flynyddau maith mae son lawer wedi bod am gapel newydd yn y Sychpant ac o'r diwedd mae y drychfeddwl hwn yn agos ei gwblhau. Chwef. 7, gosodwyd ceryg sylfaen y capel newydd. Nid oedd y tywydd yn hollol ffafriol, ond daeth tyrfa luosog o bobl yn nghyd. Am haner awr wedi dau yn yr awyr agored, cyflawnwyd y rhan ddefosiynol gan y Parch. E. O. Jenkins, y Llwyn. Ar ol hyn gosodwyd y ceryg—pedair mewn rhif—yn eu lle gan Cadben Davies, Rhydowenfach ; y Parchn. John Davies, gweinidog y lle ; E. Ceredig Jones, M.A., Bradford, a W. James, B.A., Y.H., Llandyssul. Cychwynwyd wedi'n i un o dai y pentref i wrando areithiau gan weinidog y lle, yr hwn a roddodd ddesgrifiad effeithiol iawn o'r hyn a fuasai yn cael ei holi a'i ateb mewn oesoedd eto yn nglŷn a'r boneddigion ag mae eu henwau yn addurno'r mur ; gan eraill a grybwyllwyd yn barod, a chan y Trysorydd a'r Ysgrifenydd ar ran yr eglwys. Mwynhawyd gwledd ragorol o dê wedi ei pharatoi gan gyfeillion y lle. Yn yr hwyr cynhaliwyd gwasanaeth gan y Parch. E. Ceredig Jones, M.A., yn "Ngweith-dy y Saer." Yr oedd yr ystafell yn llawer rhy fychan ar gyfer yr achlysur. Ar droion o'r fath hyn yr ydym yn gweled cymhwysder yr enw roddwyd gan Mr. Jones i'r ystafell, sef Nyth y Dryw. Pregethodd ar y testyn "Cuddiedig ddyn y galon," ac yr oedd ei bregeth yn llawn o sylwadau trymion, sylwadau arosant yn nghof y gwrandawyr am hir amser.—D.H.J.

APPEL.—Fel y mae yn hawdd casglu oddiwrth ddarlun y lle yr ydym yn cynal ein haddoliad ynddo, y mae angen mawr arnom am dŷ cwrdd cyhoeddus O'r diwedd cafwyd *site* yn rhad, ac yr ydym yn bwriadu adeiladu capel bychan tlws, gwerth oddeutu £600. Tuag at y swm neilduol hyn yr ydym wedi casglu eisoes £476. Trwy garedigrwydd a dylanwad y Parch. E. Ceredig Jones, M.A., Bradford, yr hwn a gymer ddyddordeb mawr yn ein hymdrech bresenol, derbyniasom gyfraniadau ac addewidion o Loegr tua £372. Mae y ffynonhell hon yn mron sychu, ac felly y mae yn angenrheidiol i ni i droi at ein cyfeillion Undodaidd Cymreig. Y mae y cyfeillion Seisnig yn nghyd a cyfeillion enwadau eraill yn yr ardal hon wedi bod yn hynod o garedig tuag atom, a gobeithio y bydd i *rank and file* y fyddin Undodaidd Gymreig i ddilyn eu hesiampl fel y byddo yr oll o'r arian mewn llaw cyn agoriad y capel—yr hyn a gymer le tua diwedd Awst nesaf. Cafodd yr achos hwn ei gychwyn tuag ugain mlynedd yn ol yn y dull o Ysgol Sul. Er's blynyddau maith bellach yr ydym yn cwrdd mewn masnachdy. Blwyddyn yn ol ffurfiasom ein hunain yn eglwys, ac yn awr yr ydym dros ddeugain o aelodau, ond y mae y nifer presenol yn y gwasanaeth dros dri ugain a deg—ffaith sydd yn gwneyd ein ty cyfarfod presenol yn

hynod o anghysurus. Ar ran yr eglwys yr ydym yn gwneud cais taer am gynorthwy, ac yn fuan bydd y gweinidog yn dyfod oddiamgylch i ofyn am eich cyfraniadau tuag at y symudiad teilwng hwn. Ydym, yr eiddoch, John Davies, Gweinidog; David Evans, Trysorydd; David H. Jones, Ysgrifenydd. D.S.—Bydd y Trysorydd, Mr. David Evans, Caellan, Llawenog, Llanybyther, R.S.O.. yn ddiolchgar iawn am bob tanysgrifiad a ddaw i'w law. [Drwg genym am yr amryfusedd sydd wedi gadael allan ddarlun "Nyth y Dryw." Ymddengys yn y rhifyn nesaf.—Gol.]

Y Gynadledd Dair-blynyddol. Cynhelir y cyfarfod nesaf yn Rhydychen yn wythnos y Pasg, Ebrill 17—20. Hwn yw'r wythfed cyfarfod oddiar y flwyddyn 1882 pan y gwnaed y cychwyniad cyntaf yn Lerpwl. Ni synwn na fydd y gynhadledd yn Rhydychen mor llwyddianus ag un o honynt, os nad mwy felly, gan fod y ddinas mor enwog, ac yn meddu ar gymaint o atdyniadau. Gwelwn fod y rhaglen hefyd wedi ei threfnu gyda chyfaddasiad pwrpasol at amrywiaeth chwaeth y rhai a gant gyfleusdra i fod yn bresenol. Y pregethwyr yw y Parch. Joseph Wood, Birmingham, a Dr. John Hunter, Glasgow. Yn mhlith y rhai a drefnir i ddarllen papyrau cawn enwau Dr. Rashdall, offeiriad enwog yn Rhydychen, a'r Cymro adnabyddus, y Parch. Rhondda Williams, Bradford. Da genym weled y gwahoddir y Parch. J. Davies, Alltyplaca, i gymeryd rhan mewn un cyfarfod. Y Parch. James Harwood, 105, Palace Road, Tulse Hill Park, London, S.W., yw yr ysgrifenydd, a theimlwn yn sicr y bydd yn falch i roddi pob cyfarwyddyd gyda golwg ar *Lodgings*, &c.

Undeb Ysgolion Llanbedr.—Cyfarfu Pwyllgor yr Undeb uchod dydd Sul, Chwefror 11, yn Mrondeifi, er trefnu ar gyfer y Gymanfa nesaf, a phenderfynwyd i'w chynal yn Alltyplaca, ddydd Llun, Mai 21. Dewiswyd y Tônau allan o'r Rhaglen, a'r Anthem "Nid i ni," &c. Hefyd y ddwy dôn a'r anthem "Awn i Ganaan" i'r plant. Gofala yr Ysgrifenydd am y trefniadau yn ystod y dydd. Bydd gwasanaeth am chwech ynghyd a dwy bregeth.—W. Hefin Williams, Ysg.

Y Nodyn Efengylaidd.—Dywed yr *Expository Times* am Ionawr—papyr a gydnabyddir fel yn hollol iach a diogel—wrth adolygu cyfrol o bregethau gan weinidogion Undodaidd mai y peth tarawiadol yn mhob un o honynt oedd "y nodyn efengylaidd." Cydnabyddai golygydd y *British Weekly* er ys peth amser yn ol, fod llyfr Dr. Drummond, penaeth Coleg Manchester, a elwir "*Via, Veritas, Vita*," yn "genuinely Christian utterance," — dadganiad Cristionogol o'r iawn ryw. Beth fynwn ni ragor. Mae Undodiaeth bellach ar awdurdod y fath dynion a Dr. Hastings a Dr. Robertson Nichol yn efengylaidd a Christionogol.

Arholiad Adran yr Ysgol Sul.—Cymer yr arholiad le eleni prydnawn Ebrill 25ain, am 5 o'r gloch yn y gwahanol gapelau. Ofnaf fod rhyw lesgedd wedi ymaflyd yn y mwyafrif o'n hysgolion eleni gan mai yn araf iawn y bu rhai o honynt yn danfon am y Gwersi. Gobeithio y gwnant y goreu o'r amser sydd yn ol.—L.W. Ysg.

Y Casgliad Blynyddol at Adran yr Ysgol Sul.—Mae yn ddyledus yn awr, a gobeithio y bydd i'r oll o'r ysgolion ddanfon eu casgliadau cyn diwedd mis Ebrill i'r Trysorydd, Mr. W. H. Thomas, Gelly Cottage, Gellynudd, Pontardawe.—L.W. Ysg.

Graig, Llandyssul. — Dydd Mercher, Chwefror yr 28ain, cynhaliodd Ysgol Sul y Graig ei gwyl dê flynyddol. Rhoddwyd y wledd eleni gan Miss Lewis, Twely Side, ac yr ydym yn dra diolchgar iddi am ei charedigrwydd. Cynorthwyid hi gan eraill i weini ar anghenion y plant a phawb, a threuliwyd prydnawn difyr a llawen. Yn yr hwyr cynhaliwyd cyfarfod adloniadol o dan lywyddiaeth Mr. Lewis Thomas,

Rhoslwyn, arolygydd yr Ysgol Sul. Aeth y plant drwy raglen faith o ganu, adrodd a dadleu. Yn ystod yr hwyr cyflwynwyd tystysgrifau i'r ymgeiswyr llwyddianus yn arholiad blynyddol yr Ysgol Sul. Rhanwyd cynwys y *Penny Bank* hefyd, sef ceiniogau roddasai'r plant yn nghadw drwy'r flwyddyn. Yr oedd y cyfanswm yn mron cyrhaedd £50. Y mae diolchgarwch yn ddyledus i Mri. Tom Davies a James Jones, Ysgrifenydd a Thrysorydd y ganghen hon; i'r Heddgeidwad Thomas a Mr. Evan Richards am eu gofal am y canu ac i bawb am eu ffyddlondeb yn ystod y flwyddyn. Cynygiwyd y diolchiadau arferol gan y gweinidog ac eiliwyd gan Cadben Davies, Rhydowenfach.

PANTDEFAID.— Dydd Iau yr 8fed o Fawrth cynhaliodd yr eglwys hon ei gwyl de flynyddol, a throdd allan yn un o'r rhai goreu a gawsom erioed. Yn unol a'u caredigrwydd arferol at Bantdefaid, rhoddwyd y te gan deulu Camnantfach ac yr ydym fel Ysgol Sul yn ddiolchgar iawn iddynt am eu haelfrydedd. Yn yr hwyr cynhaliwyd cyfarfod adloniadol a chystadleuol o radd uchel. Adroddwyd darnau cymeradwy, llawer o honynt o waith y beirdd lleol, gan y plant. Canodd y plant amryw ddarnau dan arweiniad Mr. D. Davies, Gwarcefel Arms, a'r cor dan Mr. L. T. Thomas, Gyfeile. Rhanwyd y tystysgrifau a gwobrau mewn llyfrau i'r plant am eu ffyddlondeb drwy'r flwyddyn. Beirniadwyd yn y gwahanol gystadleuaethau gan Mr. J. R. Thomas a'r Parch. E. O. Jenkins, Llwyn. Talwyd y diolchiadau arferol gan y gweinidog ac eiliwyd yn bwrpasol iawn gan Mr. D. Thomas, Cloth Hall. Hyderwn y bydd gweithrediadau y dydd hwn yn symbyliad i fwy o weithgarwch a ffyddlondeb nag erioed.

Y GENINEN.—Daeth Ceninen Gwyl Dewi i law yn brydlon. Y mae fel arfer yn llawn o bethau da a dyddorol, ac fe ddylai pob Cymro sydd am gadw mewn *touch* a llenyddiaeth ei wlad fynu ei gweled.

UNDEB YSGOLION SUL LLANDYSSUL.—Cyfarfu pwyllgor yr uchod, sef cynrychiolwyr o Bwlch, Llwyn, Pantdefaid a Llandyssul, yn Neuadd Pantdefaid, Mawrth 17eg, er gwneud y trefniadau anghenrheidiol gyferbyn a'r gymanfa nesaf. Penderfynwyd ei chynal yn Llwynrhydowen, Sul Mai y 13eg, i ddechreu am haner awr wedi un. Y tônau genir ydynt 'Bryniau Cassia,' 'Gogerddan,' 'Gwynfe,' 'Bampton,' a'r anthem, 'Nid i ni, O Arglwydd'; 'Gogoniant,' ac 'Awn i Ganaan,' i'r plant. Mri. L. T. Thomas, Gyfeile, a David Davies, Gwarcefel Arms i arwain, yr olaf i arwain y plant, a Misses Tydfil James a Bessie Evans i gyfeilio. Holir ysgolion Llandyssul a Phantdefaid gan y Parchn. E. O. Jenkins, a'r Llwyn a Bwlch gan y Parch. Arthur Thomas. Yn yr hwyr pregethir gan y Parchn. W. James, Llandyssul, ac Arthur Thomas. Gwneir casgliad yn nghwrdd yr hwyr tuag at y treuliau.

Y CYFARFOD CHWARTEROL.—Cynhelir yn Nghaeronen, yr wythnos cyn y Pasg, Mawrth a Mercher, Ebrill 10 a 11. Gwasanaeth am 6.30 nos Fawrth; Pwyllgor am 9 dydd Mercher; gwasanaeth am 10, 2 a 6. Pregethir y bregeth gan y Parch. D. G. Rees, Penybont. Traddodir pregeth Saesneg gan y Parch. S. Jones, B.A., Pontypridd, rhyw amser dydd Iau. Casgliadau fel arferol at y treuliau, &c. Bydd croesaw calon i bawb fel y gellir disgwyl oddiwrth bobl Caeronen.—W. JAMES, Ysg.

Argraffwyd gan J. D. Lewis, Gwasg Gomer, Llandyssul.

COMMERCE HOUSE

LAMPETER.

D. NUN DAVIES,

. . FOR . .

Millinery, Capes, Jackets, Costumes & Furs

OF THE NEWEST STYLES.

NEW GARDEN & AGRICULTURAL SEEDS.

The Best Varieties. Proved and Tested for Growth and Quality.

Fruit Trees, Roses, Ornamental Trees & Shrubs.

Catalogues Free.

Funeral Wreaths, Crosses, Wedding Bouquets, &c.

HARRY COYSH, Nott Square, Carmarthen.

25 years practical experience in Home and Foreign Nurseries and Seed-growing Establishments.

A very Choice Selection of Artificial Wreaths always in Sotck.

CHANNING HOUSE,

High School for Girls and Unitarian Boarding School,

HIGHGATE, LONDON, N.

Head Mistress : Miss LILIAN TALBOT, B.A. Honours (Lond.),

To whom all enquiries should be addressed.

Fees per Term : Boarders, £17 17s., including Free Laundry ; with Music, £19 19s. Daughters of Unitarian Ministers, £10 13s. 6d. ; with Music, £12 5s. Day Scholars, Three to Five Guineas. The above Fees include all Classes for London Matriculation, also Drawing & Class Singing.

☞ Good Playground, Cricket, Tennis, Hockey.

☞ Opportunities afforded for Sight-seeing in London.

Committee of Management—Mrs. W. Blake Odgers, F. J. Nettlefold, Esq., F. Preston, Esq., W. A. Sharpe, Esq., Mrs. W. A. Sharpe, Harold Wade, Esq., Mrs. W. Wooding.

Henry Thomas & Sons,

GENERAL DRAPERS,

'THE EMPORIUM,' 2, GUILDHALL SQUARE,

CARMARTHEN.

Ground Floor.

Linen, Cotton and Woollen Goods, Dresses, Silks, Hosiery, Gloves, Laces, Ribbons, Trimmings, and Gents' Mercery, Linoleums, Carpets, and General Furnishing.

Show Rooms.

The Largest and Most Selected Stock in the District of Mantles, Jackets, Costumes, Furs, Ladies' and Children's Underclothing of Every Description. A Grand Show of English and French Millinery.

☞ Dressmaking and Millinery Workrooms under Most Competent and Experienced Management.

CHRISTR. THOMAS & BROS. Ltd., Bristol,

Have the Leading Reputation in Wales for their

HOUSEHOLD & TOILET SOAPS.

THE FAVOURITE QUALITY IS

CHRISTR. THOMAS & BROS. LTD.,
BEST PALE

Which, as well as the other sorts, can be obtained, wholesale and retail, from

T. E. JONES & Co., LLANDYSSUL.

FOR

Double Furrow Ploughs and Harrows.

FOR

Barb Wire and Wire Netting

Of Superior Quality
at Competitive Prices

GO TO

WILLIAM JAMES,

IMPLEMENT DEPOT,

. . . LLANDYSSUL.

ATHROFA PRIFYSGOL CYMRU.

ABERYSTWYTH.

(Un o Golegau Prifysgol Cymru.)

Llywydd: Y Gwir Anrhydeddus Arglwydd Rendel
Prifathraw: T. F. Roberts, M.A. (Oxon.).

Cynwysa y cwrs o Addysg y parotoad angenrheidiol am Raddau yn y Celfyddydau (Arts) Gwyddoniaeth a Chyfraith yn Mhrifysgol Cymru a bydd hefyd yn wasanaethgar i Efrydwyr yn parotoi ar gyfer Graddau yn y Celfyddydau (Arts, ac mewn Gwyddoniaeth yn Mhrifysgol Llundain, ar gyfer arholiadau yn Mhrifysgolion Rhydychen a Chaergrawnt yn gystal ac astudiaeth Feddygol yno ac mewn Prifysgolion eraill.

Yn yr Adran Amaethyddol trefnir parotoad neillduol ar gyfer arholiadau y Gymdeithas Amaethyddol a Thystysgrif y Surveyors' Institution.

Y Ta: Blynyddol yn Adranau y Celfyddydau a Gwyddor yw £10 gydag ychydig yn rhagor am Addysg Ymarferol yn y 'Laboratories.'

Dyfarnir Ysgoloriaethau gwerth o £40 i £10 ar ddechreu'r tymhor yn mis Medi bob blwyddyn.

Perthyn i'r Coleg 'Gymnasium,' Cychod, 'Recreation Grounds,' &c.

Lletya'r Efrydwyr mewn tai yn y Dref neu yn Neuadd yr Efrydwyr—y Proff. Marshall, Warden, a'r Efrydesau mewn neuadd eang Alexandra all o dan arolygiaeth Miss E. A. Carpenter.

Am Prospectus a manylion neillduol ynghylch yr Adranau Normalaidd, ac Amaethyddol ac Adran yr Athrawon Canolradd, ymofyner a

J. H. Davies, Registrar.

BEN EVANS & COMPY.

Are now making a Grand Display of FURNITURE and FURNISHING MATERIALS.

Artistic Furniture for Halls and Offices.
Artistic Furniture for Drawing and Dining Rooms.
Artistic Furniture for Bedrooms.

FURNITURE REMOVED. ESTIMATES FREE.

BEN EVANS & COMPY.

For the Largest Selection of Brussels, Axminster, Velvet Pile, Tapestry, Turkey and Oriental Carpets, Turkey, Persian, Japanese, Scinde and Turkestan Rugs, Painted Back Oilcloths, Cork Carpets and Inlaid Linoleums. Carpets & Floor Coverings, Made & Laid Free of Charge.

BEN EVANS & COMPY.

Hold a well-assorted Stock of Bedsteads and Bedding, Domestic Ironmongery, Hollow-ware, Brushes & Turnery, Fire Irons, Baths, Lamps, Table Glass, Breakfast, Dinner and Tea Services, together with a Beautiful Selection of Silver and Electro-Plated Goods, suitable for Wedding Presents.

Furniture, Carpets, &c., to the value of £10 and upwards, Carriage Paid to nearest Railway Station.

BEN EVANS & COMPY.

Have always on hand a First Class Stock of Irish Table Linen, Irish, Barnsley and Cotton Sheetings, Embroidered and Hemstitched Sideboard and Tray Cloths, Bedspreads, D'oyleys, &c., &c.

Drapery Parcels to the value of 20s. and upwards, Carriage Paid.

ILLUSTRATED CATALOGUE POST FREE.

BEN EVANS & CO., LTD. SWANSEA.